STRATEGAETHAU CASGLIADAU I WIREDDU

GWELEDIGAETH AMGUEDDFA CYMRU

1. CYFLWYNIAD

1.1 Pam fod amgueddfeydd yn casglu

Yn ei chyflwyniad i adroddiad Cymdeithas yr Amgueddfeydd *Collections for the Future* (2005), nododd Jane Glaister, Cadeirydd Grŵp Llywio Ymchwiliad Casgliadau'r Gymdeithas a chyn-lywydd Cymdeithas yr Amgueddfeydd "Mae casgliadau amgueddfeydd ac orielau yn rhoi pleser i bobl ac maent yn gallu achosi syndod a pharchedig ofn. Maent yn galluogi pobl i archwilio'r byd, a rhoi sylwedd i bobl eraill, profiadau eraill a llefydd eraill a dod â nhw'n fyw. Maent yn rhoi tystiolaeth ac yn creu cyfleoedd ar gyfer ymchwil a dysgu... maent yn rhoi ymdeimlad cryf o le, hunaniaeth a pherthyn i bobl, gyda'u gwreiddiau'n ddwfn mewn dealltwriaeth lawnach o'r gorffennol".

Casglu sbesimenau yw *raison d'être* amgueddfeydd ac maent yn darparu cronfa ddata sylfaenol ar gyfer eu holl waith ac amcanion. Y sbesimenau hyn yw'r prif adnoddau ar gyfer gwasanaethu nifer o gyfrifoldebau i'r cyhoedd, o ateb cwestiynau gan arbenigwyr neu'r cyhoedd, darparu deunydd ar gyfer arddangosfeydd, neu roi gwybodaeth i gyrff eraill. Y sbesimenau mewn gwirionedd yw'r gronfa ddata tri-dimensiwn sy'n cofnodi gorffennol a phresennol gwlad a'i lle yn y byd. Y rhain felly yw'r deunydd crai addysgol i adrodd y stori. Ni fydd dulliau modern o gyrchu data byth yn cymryd lle'r angen am weld 'y peth go iawn' ac yn wir, gallai arwain at alw cynyddol am fynediad iddynt. Mae'r deunydd yn y storfeydd cefn yn destun ymchwil parhaus gan staff yr amgueddfa sy'n ei ryddhau cymaint â phosibl i'r gymuned ddiwylliannol a gwyddonol ehangach. Mae cynnig mynediad i'w casgliadau fel adnodd unigryw o bwys i ddysgu gydol oes ac yn flaenoriaeth fawr i amgueddfeydd heddiw.

Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth yn y proffesiwn nad yw amgueddfeydd yn datblygu eu casgliadau â'r un brwdfrydedd a manwl gywirdeb ag sydd ei angen i sicrhau eu bod yn gwasanaethu anghenion cynulleidfaoedd heddiw ac yfory. Rhaid i amgueddfeydd gymryd rhan yn y drafodaeth am y ffordd orau o ddatblygu'r casgliadau ar gyfer y dyfodol, ac adfer y gwaith ymarferol o gasglu fel rhan annatod o'u gweithgareddau.

1.2 Ein hamrywiaeth unigryw o gasgliadau

Amgueddfa Cymru yw'r storfa genedlaethol o ddeunyddiau tri-dimensiwm sy'n perthyn i dreftadaeth a diwylliant naturiol a chreedig Cymru, ac o ddeunyddiau rhyngwladol sy'n helpu diffinio lle Cymru yn y byd. Hi yw prif gorff Amgueddfeydd yng Nghymru; mae dros 4 miliwn o sbesimenau neu grwpiau, ac mae enw da i'r rheini a safonau academaidd ac ysgolheictod ein staff yn y wlad yma ac yn rhyngwladol. Mae ehangder ac ansawdd llawer o'n casgliadau ym meysydd y dyniaethau a'r gwyddorau fel ei gilydd yn golygu ein bod ni'n unigryw ymhlith amgueddfeydd cenedlaethol y DU. Rydyn ni'n wahanol i amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol eraill y DU oherwydd

amrywiaeth ein disgyblaethau - sy'n ehangach na neb heblaw Amgueddfeydd ac Orielau Gogledd Iwerddon o bosibl – ac oherwydd nifer y safleoedd gwahanol sydd yn ein gofal. Rydyn ni'n cyflawni swyddogaethau holl amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol Llundain ar ran Cymru, ac yn gofalu am y casgliadau ar ran pobl Cymru.

Oherwydd cylch eang ein Siarter, mae ein casgliadau'n cynnwys, er enghraifft, llawfwyeill cerrig cynhanesyddol, offer milwrol Rhufeinig, tlysau canoloesol a darnau arian o Oes Victoria; peintiadau olew, darluniau a serameg; pryfed, anifeiliaid wedi'u stwffio a chregyn; creigiau, mwynau a ffosiliau; adeiladau cynhenid, celfi, gwisgoedd a thecstilau eraill; offer mwyngloddio glo a chyfrifiaduron; ac archifau, ffotograffau, llyfrau hanesyddol a newyddiaduron dysgedig. Mae'r darnau yn y casgliadau felly'n amrywio o sborau a ffosiliau microsgopig ar y naill law, i sgerbydau morfilod, injans rheilffordd, pwll glo a phlasty ar y llall. Mae llawer o'r gwrthrychau yn ein casgliad yn werthfawr iawn yn ariannol, fel 'Y Ferch o Baris' gan Renoir a lluniau eraill er enghraifft, tra bo gan ein hadrannau gwyddoniaeth nifer fawr o 'sbesimenau teip' - sef y sbesimen gwreiddiol a alluogodd i rywogaeth, isrywogaeth neu grŵp gael ei ddisgrifio, ac sydd o werth gwyddonol unigryw o'r herwydd.

Daw rhai o'n casgliadau o gasgliadau preifat a sefydliadol a sefydlwyd ymhell cyn sefydlu'r Amgueddfa, er enghraifft casgliadau pwysig Melvill a Tomlin o gregyn, a chasgliadau archaeoleg, celf a bywyd gwerin hen Amgueddfa Caerdydd, sef, yn ei hanfod, casgliad sylfaen y sefydliad. Cafodd rhai o'r casgliadau eraill eu cyflwyno'n gyflawn i'r Amgueddfa fel rhoddion neu'n gymynroddion - dwy enghraifft yw cymynrodd y chwiorydd Davies o beintiadau Argraffiadol, a Chasgliad Pryfed Prifysgol Bangor - tra bod staff yr Amgueddfa wedi cronni casgliadau eraill trwy bwyll ac amynedd dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae Amgueddfa Cymru'n sefydliad ifanc o'i gymharu â llawer o amgueddfeydd cenedlaethol eraill Prydain, ac mae ein cwmpas yn dal i fod yn wan mewn mannau.

1.3 Agweddau cenedlaethol a rhyngwladol

Mae natur amgueddfeydd cenedlaethol yn golygu bod eu safbwyntiau a'u safonau'n rhyngwladol hefyd, gan adlewyrchu ansawdd a (fel arfer) cwmpas eu casgliadau. Mae gorffennol ymerodrol Prydain wedi galluogi llawer o amgueddfeydd y DU i gael gafael ar gasgliadau pwysig o ddeunydd rhyngwladol, ac yn enwedig hen bethau, deunydd ethnograffig, a sbesimenau hanes natur. Mewn sawl achos, ac yn enwedig ym maes y gwyddorau, mae hi wedi bod yn anodd iawn gwahaniaethu'n glir rhwng deunydd cenedlaethol a rhyngwladol. Ers blynyddoedd, ein datganiad anffurfiol o'n cenhadaeth yw 'dweud wrth y Cymry am y byd ac wrth y byd am Gymru', ac er mwyn cyflawni hanner cyntaf y genhadaeth yna, mae angen casgliadau o rannau eraill o'r byd. Yn wir, mae ein Siarter drafft diwygiedig yn gofyn ein bod ni'n casglu 'gwrthrychau a phethau, a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, sy'n cael eu casglu i wella dealltwriaeth a hyrwyddo gwaith ymchwil'.

O ran ein casgliadau, mae'r casgliadau Diwydiant, Bywyd Gwerin ac Archaeoleg bron a bod yn hollol Gymreig o ran eu cynnwys, neu maent yn cynnwys ychydig iawn o ddeunydd cymharu nad yw'n dod o Gymru. Mae casgliad yr adran Gelf o beintiadau -

sef y rhan enwocaf o'n casgliadau - yn ymrannu'n dair rhan sydd bron yn gyfartal, rhwng gweithiau gan artistiaid Cymreig, gweithiau gan bobl eraill yn darlunio testunau Cymreig a gweithiau eraill. Mae'r casgliadau Daeareg yn cynnwys llawer iawn mwy o ddeunydd nad yw'n Gymreig. Caiff creigiau o bedwar ban y byd eu dyddio gan ddefnyddio templed Cymreig - Cyn-Gambriaidd, Cambriaidd, Ordofigaidd, Silwraidd ac ati - ac mae teithiau Cymry ar draws y blaned yn golygu ein bod ni'n gallu dysgu am ein gwlad ein hunain trwy gasglu ac astudio ffosiliau o Sgandinafia, canolbarth Asia a'r Ariannin, a thrwy ymchwilio i losgfynyddoedd hynafol a modern yn ne America, gorllewin UDA a Gwlad yr Iâ, er enghraifft. Yn olaf, mae rhan helaeth o'n casgliadau Bioamrywiaeth yn rhyngwladol, gyda chasgliad cregyn Melvill-Tomlin o bedwar ban y byd yn cyfateb â fersiwn wyddonol o Gymynrodd y Chwiorydd Davies o ran ei bwysigrwydd, gan ein helpu ni eto i ddeall lle Cymru yn y byd wrth ein galluogi ni i gyfrannu at agenda ryngwladol drwy ein gwaith ymchwil a dysgu.

1.4 Defnyddio'r casgliadau

Fel pob amgueddfa arall, dim ond cyfran fach o'r casgliadau sydd gennym sy'n cael eu harddangos - llai na 0.6% ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae 13% yn cael eu dehongli drwy gyfryngau electronig, ac mae rhaglen o arddangosfeydd dros dro, â'r mwyafrif ohonynt yn cael eu creu, neu eu creu'n rhannol o gasgliadau'r Amgueddfa ei hun, yn ein galluogi ni i ryddhau'r casgliadau sydd, fel rheol, yn cael eu cadw yn y storfa. Gwelodd bron i 1.4 miliwn o ymwelwyr ein casgliadau yn 2004/05. O blith y rhain, daeth 217,000 mewn grwpiau addysg oedd wedi bwcio ymlaen llaw, a gafodd ddehongliad arbennig gan y swyddogion addysg, dehonglwyr a churaduron. Mae Oriel Glanely yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn rhoi cyfle i bobl ryngweithio'n ymarferol â'r casgliadau ac i fwynhau sgyrsiau gan guraduron a chadwraethwyr. Yn allanol, mae'r Casgliad Allestyn - o ddarnau a ategir gan ddeunydd dehongli - ar gael i unigolion mewn ysgolion a chymunedau, a defnyddir fideo-gynadledda'n gynyddol i hwyluso cysylltiadau ag arbenigwyr curadurol. Mae staff curadurol a chadwraeth yn darlithio'n helaeth ar y casgliadau mewn cynadleddau, ac i grwpiau a chymdeithasau yn y gymuned, a manteisiodd bron i 168,000 o unigolion ar y gweithgareddau hyn yn 2004/05.

Rydyn ni'n benthyg tipyn helaeth o ddeunydd i sefydliadau eraill hefyd, i'w harddangos ac at ddibenion ymchwil. Benthycwyd cyfanswm o dros 32,000 o ddarnau i 366 o ganolfannau yn 2004/05 (105 ohonynt yn rhyngwladol). Dyma un o'r ffigurau gorau o blith amgueddfeydd cenedlaethol y DU sy'n cadw data yn y maes. Mae'r casgliadau'n denu nifer fawr o ymholiadau cyhoeddus hefyd – dros 22,000 yn 2004/05. Mae'r ymholiadau hyn yn amrywio o'r cyffredinol iawn i'r penodol iawn - fel, a oes gennych chi enghraifft o rywogaeth X o leoliad Y? Mae ein staff wrthi'n gweithio ar ryw 120 o brojectau ymchwil ar y casgliadau, ac yn cyhoeddi hyd at 60 o erthyglau i'w cymheiriaid ac i'r cyhoedd, monograffau a llyfrau bob blwyddyn. Mae cynnyrch arall y gwaith ymchwil hanfodol yma'n cynnwys ateb yr ymholiadau a nodwyd uchod, a pharatoi arddangosfeydd parhaol a dros dro. Mae gwaith ymchwil amgueddfeydd yn wahanol iawn i waith ymchwil prifysgolion a chanolfannau eraill am ei fod yn canolbwyntio ar y casgliadau, felly mae ei allbwn yn llai damcaniaethol ac yn fwy perthnasol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

1.5 Pam ydyn ni'n ychwanegu at ein casgliadau?

Er mwyn bod yn berthnasol i'r presennol a'r dyfodol, ac i gyflawni'r nodau a fynegwyd yn ein siarter, rydyn ni'n parhau i greu casgliadau a fydd yn ein helpu ni i adrodd stori meysydd gweithgarwch sydd wedi bod y tu hwnt i'n gafael hyd yn hyn. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys caffael Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Cymru, i adrodd hanes diwydiannol Cymru'n fwy cyflawn, a sbesimenau daearegol o gyfandir cynhanesyddol Gondwanaland, sef hen gartref y tir sydd bellach yn Gymru. Felly, i barhau i weithredu fel amgueddfa fyw, ac fel storfa ddiffiniol Cymru ar gyfer deunydd tri dimensiwn o'r gorffennol a'r presennol, mae angen i ni gyfoethogi ein casgliadau at ddibenion cyflwyno ac ymchwil. Mae amgueddfeydd cenedlaethol yn cydweithio fwyfwy yn y maes hwn, er mwyn atal dyblygu anhepgor rhwng sefydliadau. Ond drwyddi draw, rhaid i ni gadw mewn cof y cyfrifoldebau y mae'r Siarter wedi'u gosod arnom tuag at bobl Cymru, a gweithio o fewn y ffiniau hynny.

Caiff y casgliadau eu cyfoethogi gan gaffaeliadau newydd. Gall caffaeliadau ddod o waith casglu ymarferol (ar ffurf gwaith maes, cloddio archeolegol, neu trwy gyfleoedd i brynu gwrthrychau perthnasol er enghraifft) neu trwy gasglu goddefol (derbyn eitemau sy'n perthyn i gategorïau sy'n briodol i ni, a lle mae bylchau i'w llenwi, ar ffurf rhoddion neu gymynroddion er enghraifft). Rydyn ni'n casglu sbesimenau am ein bod o'r farn eu bod yn arwyddocaol. Efallai eu bod yn weithiau celf pwysig - sy'n cael eu cydnabod felly - neu ag apêl llai uniongyrchol, ond sydd o werth parhaol yn ein barn ni. Bydd rhai sbesimenau archeolegol yn gofnodion unigryw am fywyd a gorchestion y gorffennol, a bydd llawer o'r deunydd bywyd gwerin a diwydiannol wedi bod yn gyffredin ar un adeg, ond yn ddigon prin heddiw. Rydyn ni'n casglu mwy a mwy o ddeunydd cyfoes, er mwyn cadw cofnod materol o fywyd heddiw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly gallai'r sbesimenau rydyn ni'n eu casglu fod yn nodweddiadol o fath (cragen, ffosil, adeilad neu air tafodieithol), ardal ddaearyddol (sir yng Nghymru, y Môr Celtaidd neu ynysoedd y Seychelles), neu gyfnod (llawfwyell Palaeolithig, cleddyf Llychlynnaidd, cyfrifiadur modern). Rydyn ni'n casglu hefyd i adlewyrchu newidiadau dros dreigl amser (math arbennig o offeryn, ffosil o ffurf ar fywyd, neu gragen) - bydd casglu'r un rhywogaeth o un lle dros gyfnod o amser yn dangos unrhyw newidiadau tymor hir sy'n codi o lygredd neu'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft.

1.6 Sut ydyn ni'n ychwanegu at ein casgliadau?

Caiff eitemau eu caffael ar gyfer y casgliadau drwy waith maes a phryniant, ac ar ffurf rhoddion neu gymynroddion. Mae gwaith maes yn arbennig o bwysig ym myd y gwyddorau, lle mae astudio'r ddaear a'i gynefinoedd yn aml yn creu cyfleoedd am gasglu, a bydd y sbesimenau'n cael eu cludo'n ôl i'r Amgueddfa am waith cadwraeth, enwi ac ymchwil. Mae gwaith maes pwysig yn cael ei wneud ar y cyd â sefydliadau a gwledydd eraill fel yr arolygon sy'n cael eu hariannu gan yr UE a'r Cynulliad ar ffawna gwely'r Môr Celtaidd; cynlluniau Darwin a ariennir gan y DfEE i hyfforddi gwyddonwyr lleol yn nwyrain Affrica ac ynysoedd y Galapagos; a phroject 'Shoals of Capricorn' y Gymdeithas Ddaearegol Frenhinol sydd wedi gweld ein staff yn gweithio yn ynysoedd y Seychelles, yn casglu deunydd i'w ddefnyddio i gymharu dwysedd a dosbarthiad rhywogaethau â rhai o'r Môr Celtaidd, er enghraifft. Mae ein staff yn

cyflawni contractau ar ran asiantaethau eraill fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu English Nature (fel arolwg MINESCAN o'r holl safleoedd mwynau yng Nghymru at ddibenion cadwraeth, neu astudiaethau o fisglod dŵr croyw yn afonydd Cymru a Lloegr) yn arwain at gaffael deunydd ar gyfer yr Amgueddfa, ac yn wir dyma'r prif gyfiawnhad dros adael i'n staff wneud y gwaith. Ym maes Archeoleg, mae gwaith maes yn aml ar ffurf gwaith cloddio. Mae'r Adran ei hun yn cyflawni nifer o gloddiadau ymchwil, yn aml dros sawl tymor. Mae canfyddiadau gwaith cloddio a noddir gan, neu a gyflawnir gan Cadw ac Ymddiriedolaethau Archaeoleg Cymru yn aml yn cael eu cyflwyno i'r Amgueddfa i gyd-fynd â'r cofnodion perthnasol. Mae adeiladau ar gyfer casgliad Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru'n aml yn dod i'n sylw trwy waith maes, er bod pryd y cânt eu cynnig i ni'n aml y tu hwnt i'n rheolaeth. Fel rheol, y cyfan allwn ni ei wneud yw enwi'r math o adeilad rydym ni am ei ychwanegu at y casgliad; ac mae caffael enghraifft o'r math hwnnw'n aml yn cymryd nifer o flynyddoedd.

Daw llawer o eitemau i'n meddiant ar ffurf rhoddion neu gymynroddion hefyd. Ond dylid nodi y bu angen i'r Adran Bywyd Gwerin - sydd wedi derbyn nifer o eitemau trwy roddion yn y gorffennol - gwtogi ar nifer y rhoddion y mae'n ei derbyn oherwydd diffyg llefydd storio addas. Ond mae pobl yn dal i roi neu (yn llai aml) gadael cymynroddion i ni, a hynny'n aml yn ddirybudd. Caiff eitemau a chasgliadau eraill eu prynu naill ai'n breifat ar sail cynnig, neu'n gyhoeddus mewn arwerthiant. Rydyn ni'n ymgynghori â sefydliadau eraill a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru yn y ffordd fwyaf effeithiol. Cyfyngiad difrifol arall (fel storio) ar gaffael eitemau yw cyllid. Mae Grant Prynu Sbesimenau'r Amgueddfa wedi aros ar yr un lefel o £1.075M ers rhai blynyddoedd bellach, ond mae ei bŵer i brynu wedi disgyn llawer mwy na chwyddiant, ac yn arbennig ym maes celf. Bydd partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Derek Williams yn helpu i brynu darnau o gelf fodern, ond yn anffodus, bydd hyn ar draul meysydd eraill.

1.7 Yr angen am Strategaethau Casgliadau newydd

Mae ein polisïau casglu fesul pwnc (sy'n wahanol i'n polisïau Rheoli Casgliadau, a ddilyswyd gan ein Hymddiriedolwyr yn ddiweddar), a luniwyd diwethaf ym 1997, yn ddogfennau digon goddefol. Yn ysbryd ein dyheadau newydd, mae angen i ni greu ffocws o'r newydd iddynt a chreu Strategaethau Casgliadau sy'n ddogfennau mwy gweithredol o lawer gan adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Weledigaeth, y Strategaethau a gymeradwywyd, ein polisi Dysgu a Mynediad, a dangos eu perthnasedd wrth fodloni anghenion allanol a nodwyd. Dylai'r rhain ddangos rôl ein casgliadau yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn rhyngwladol. Dylent sicrhau bod agweddau modern a chyfoes, sy'n wan yn draddodiadol mewn amgueddfeydd nad ydynt yn canolbwyntio ar wyddoniaeth, yn cael eu trafod. Dylai'r rhain nodi bylchau yn y casgliadau a mesurau neu strategaethau i fynd i'r afael â nhw os yw hynny'n briodol, a nodi casgliadau gweithredol, goddefol a chaeedig, a meysydd darfod gweithgarwch gyda mesurau priodol i gael gwared ar gasgliadau nad ydynt yn ddefnyddiol mwyach. Rhaid lliniaru'r pwynt olaf yma trwy gydnabod bod y casgliadau bob amser wedi tyfu a chywasgu dros amser yn ôl y ffasiynau casglu, sy'n ymateb yn eu tro i bwysau o'r tu allan. Ond cedwir casgliadau, yn enwedig casgliadau cenedlaethol, ar gyfer y dyfodol, a nhw yw'r sail ar gyfer tystiolaeth tri-dimensiwn o'r gorffennol, sy'n caniatáu ar gyfer gofyn cwestiynau yn ogystal â'u hateb yn y dyfodol.

Ni allwn ni ragdybio ein bod ni'n gwybod beth fydd y cwestiynau hyn, ond rhaid i ni fod yr un mor sensitif i'r adnoddau sydd eu hangen i edrych ar ôl y casgliadau sydd yn ein gofal. Er mwyn cadw'r cydbwysedd, mae'n briodol bod yr Ymddiriedolwyr yn adolygu pa mor briodol yw'r casgliadau, a byrdwn unrhyw weithgarwch casglu yn y dyfodol.

1.8 Cyfeiriadau newydd

Mae ein Siarter diwygiedig drafft (2005/06) yn gofyn ein bod ni'n datblygu ein gweithgareddau "trwy sicrhau cynrychiolaeth gynhwysfawr ym maes gwyddoniaeth, celf, diwydiant a diwylliant Cymru, neu sy'n berthnasol i Gymru, ac yn gyffredinol trwy gasglu, cofnodi cadw, esbonio a chyflwyno gwrthrychau a phethau a'r wybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, sy'n cael eu cyflawni i ddatblygu dealltwriaeth a hyrwyddo gwaith ymchwil". At hynny, nod datganiad ein Gweledigaeth a'n Cynllun Datblygu ar gyfer 2006-16 yw troi'r sefydliad yn amgueddfa ddysg o safon ryngwladol. Yn ogystal â chynnal ein hymrwymiad i addysg a rhagoriaeth, rydyn ni am ddod yr un mor enwog am ein perthnasedd i'r gymdeithas â'n harloesed. Byddwn ni'n cynnwys ein rhanddeiliaid wrth drafod a chyflwyno materion cyfoes mewn ffyrdd newydd ac ymestynnol. Un o'r ffyrdd sylfaenol o gyflawni hyn fydd creu casgliadau llewyrchus sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac yn ffynnu. Fe wnawn ni hyn, ymhlith pethau eraill, trwy ychwanegu at y casgliadau mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'r gymdeithas sydd ohoni yn y dyfodol a byddwn ni'n canolbwyntio ar gydweithio â gwahanol grwpiau o randdeiliaid ac ymwelwyr sy'n gallu'n helpu ni i sicrhau bod y casgliadau'n tyfu mewn ffyrdd ystyrlon. Rydyn ni eisoes wedi dechrau cynnwys rhanddeiliaid yn y trafodaethau hyn. Byddwn ni'n cynnig gwell mynediad corfforol a deallusol i'n casgliadau cyfeirio trwy ddatblygu mannau astudio ar sail y casgliadau yn ein hamgueddfeydd a thrwy ledaenu canlyniadau a chanfyddiadau ein gwaith ymchwil ar sail y casgliadau. Mae anghenion a buddiannau ein cynulleidfaoedd a'n partneriaethau yn debygol o hysbysu ein strategaethau'n gynyddol, yn ogystal â'n buddiannau ymchwil ni ein hunain.

Mae geiriad y Siarter ddrafft wedi ei gynllunio'n arbennig i fod â rhyddid o ran amser, hynny yw, a fydd yn caniatáu i ni gasglu mewn meysydd lle nad oes arbenigedd gennym ar hyn o bryd (os ydyn ni'n dymuno gwneud hynny). Felly, er bod y Siarter yn sôn am gynrychioli gwyddoniaeth yn gynhwysfawr …', mae ein Strategaeth ar gyfer Gwyddoniaeth (a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr yn 2005) yn cydnabod mai dim ond yn ein meysydd sefydlog o'r gwyddorau natur a daear y byddwn yn casglu, ac nid mewn meysydd eraill fel ffiseg, cemeg, seryddiaeth neu'r gwyddorau newydd. Wrth gwrs, nid yw hyn yn ein hatal ni rhag trefnu arddangosfeydd neu ddehongli'r disgyblaethau hyn os ydyn ni'n dymuno gwneud hynny. Er ein bod ni wedi dilyn y safbwynt nad oes angen i ni roi cynrychiolaeth lawn o agweddau gwyddonol a thechnolegol diwydiant yn y dyfodol agos, am fod Amgueddfa Genedlaethol y Gwyddorau a Diwydiant yn cyflawni'r rôl yna ar ran y Deyrnas Unedig, byddwn ni'n ceisio dangos enghreifftiau o waith newydd ac arloesol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe, ac yn creu casgliad yn y maes yma drwy hynny.

Ar y cyfan, bydd ein gwaith casglu'n adlewyrchu'r cyfeiriadau deallusol newydd y mae'r Weledigaeth yn eu cynnig, bod yn fwy cynhwysol ac adlewyrchu amrywiaeth

safbwyntiau a buddiannau'r defnyddwyr. Un o'r ffyrdd pwysicaf i ni ddod yn berthnasol i'r presennol a'r dyfodol yw casglu deunydd cyfoes yn yr holl feysydd sydd yn ein gofal. Rydyn ni eisoes yn gwneud hyn mewn rhai meysydd. Er enghraifft, ym maes Bioamrywiaeth mae'r rhan fwyaf o'r gwaith casglu ar sail deunydd cyfoes. Ni all deunydd Daearegol fod yn gyfoes yn ôl ei natur, ond gellir casglu mewn meysydd sy'n berthnasol i anghenion heddiw, fel daeareg drefol, a helpu meysydd eraill fel cadwraeth adeiladau trwy greu cronfa ddata o gerrig adeiladu Cymreig. Byddwn ni am gasglu deunydd i ddehongli materion gwyddonol cyfoes hefyd, o esbonio trychinebau naturiol i dynnu sylw at ddiflaniad parhaus bioamrywiaeth y byd. Yn yr un ffordd â Daeareg, ni all Archaeoleg a Niwmismateg gasglu deunydd cyfoes, ond mae'r maes yna'n datblygu dulliau newydd a mwyfwy gwyddonol o ddefnyddio'r casgliadau a'u gwneud yn fwyfwy perthnasol; ac wedi'r cyfan, mae gwybod o ble rydyn ni wedi dod bob amser wedi bod yn ffactor pwysig wrth ddeall i ble rydyn ni'n mynd. Ers blynyddoedd, mae Celf wedi bod yn datblygu ei chasgliad o weithiau modern a chyfoes, ond mae lle a chyllid wedi golygu bod hyn wedi datblygu'n araf bach. Gyda'n hymrwymiad i greu gwell Oriel Genedlaethol (ac yn yr un modd Amgueddfa Hanes Natur ac Amgueddfa Werin Cymru) dylai fod llawer mwy o le i arddangos casgliadau o'r fath yn y tymor hir, ac yn unol â hynny, mae angen mynd ati i gasglu at y diben hwn. Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau'n arddangos llawer o ddefnydd cyfoes, gyda darpariaeth ar gyfer twf, ac mae gan yr Adran Ddiwydiant guradur penodol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r casgliadau. Yn yr un modd, mae Bywyd Gwerin yn ymwybodol iawn o'r angen am ddatblygu casgliadau cyfoes. Mae materion fel casglu 'rhithwir' - h.y. cofnodi meysydd na ellir eu casglu oherwydd eu maint neu eu cyfrwng trwy ddulliau addas, yn fater sy'n gyffredin i bob pwnc. Ond caiff y deunyddiau eraill y dylem ni fod yn eu casglu'n gynyddol ei gynhyrchu ar ffurf ddigidol, a rhaid i ni ymchwilio i oblygiadau dechrau casglu deunyddiau o'r fath o ddifrif. Rhaid trafod y maes yma'n arbennig gyda chasglwyr deunydd digidol, sef y Llyfrgell Genedlaethol yn bennaf yng Nghymru, ond bydd yna enghreifftiau eraill. Daw cofnodion llafar, sef rhywbeth rydyn ni wedi bod yn ei gasglu ers amser am eu gwerth eu hunain ac fel cyfrwng ar gyfer cadw tystiolaeth, i ni fwyfwy ar ffurfiau digidol hefyd.

Y prif newid materol sy'n codi o'r Weledigaeth yw'r penderfyniad i greu tair amgueddfa newydd (y soniwyd amdanynt uchod). Wrth i ni fwrw ymlaen â strategaethau ar gyfer y datblygiadau hyn, caiff y casgliadau a enwir fel rhai sy'n addas i'w dangos a'u dehongli eu disgrifio'n fanylach. Ni allwn ni wahaniaethu rhwng y strategaethau casgliadau â'r strategaethau ymchwil ac arddangos a gaiff eu datblygu yn yr un modd ar gyfer y prosiectau cyfalaf mawr yma. Mae'r Weledigaeth wedi dangos ein dymuniad i weithio mwy gyda'n partneriaid, a dymuniadau ein partneriaid i weithio gyda ni. Yn unol â hynny, byddwn ni am ymgynghori'n helaethach ar ein holl strategaethau, a benthyg mwy o ddeunydd i mewn ac allan (er y bydd hyn yn codi ei ofynion ei hun o ran adnoddau), gwneud gwell defnydd o'r adnodd casgliadau byd-eang ac osgoi dyblygu'r casgliadau sy'n bodoli eisoes os oes modd. Byddwn ni hefyd yn dymuno cydweithio'n agosach ac mewn ffordd fwy integredig yn fewnol, er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion a gododd o'n strategaeth Celf, ymhlith eraill. Gallai'r strategaethau drafft hyn helpu i sbarduno syniadau am 'Casgliad Cenedlaethol a ddosberthir drwy Gymru', rhyngom ni, y Llyfrgell Genedlaethol, CyMAL a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru. Mae casgliadau heb eu curadu'n bodoli mewn amgueddfeydd yng Nghymru – beth ddylid ei wneud â nhw?

Felly cipolwg o ennyd mewn amser yw'r strategaethau a gyflwynir yma, a dechrau proses barhaus yn unig. Caiff strategaethau penodol eu datblygu i ategu prosiectau penodol, boed nhw'n brosiectau ymchwil neu arddangos. Ond y peth hanfodol yw bod y strategaethau hyn yn gwahaniaethu'n glir rhwng y casgliadau sy'n gofyn am ddatblygu gweithredol yn rhan o nodau ein Gweledigaeth, y rhain sy'n galw am agwedd mwy goddefol, ac eraill y gellir eu hystyried fel rhai sydd ar gau, ond sy'n werth eu cadw, a'r rhai a waredwyd am wahanol resymau. Mae yna gysylltiad hanfodol i arbenigedd hefyd a byddwn ni'n ymchwilio ymhellach i'r maes yma.

2. STRATEGAETHAU CASGLIADAU ADRANNOL

2.1 ARCHEOLEG A NIWMISMATEG

Drwy ei waith o gasglu a chadw diwylliant materol yr Adran Archeoleg a Niwmismateg yw un o'r prif gyrff yng Nghymru sy'n ymwneud â dehongli ac arddangos y gorffennol yng Nghymru a hynny mewn modd cynhwysfawr. Fel y cyfryw, mae'n ffurfio rhan bwysig o ymwybyddiaeth pobl Cymru, y mae eu gwreiddiau a'u hunaniaeth, fel Cymry, ynghlwm wrth eu harcheoleg a'u hanes. Felly, ceisiwn, trwy ein harddangosiadau a'n digwyddiadau, a hefyd trwy ofalu am gasgliadau a'u defnyddio, a'r proffil cyhoeddus uchel sydd gan waith maes ym mhob ardal o Gymru, i barhau i arwain y blaen ym myd archeoleg Cymru.
Mae'r casgliadau yn amrywio o 250,000 Cyn y Presennol i'r cyfnod modern. Er bod eu gwreiddiau yng Nghymru, maent o berthnasedd cenedlaethol a rhyngwladol. Maent yn arddangos patrymau o newid mewn cymdeithas, yng Nghymru ac mewn diwylliannau byd-eang fel ei gilydd, ac mae ganddynt berthnasedd cyfoes: hunaniaethau, ymdeimlad o berthyn, yn ogystal ag ysbrydoli creadigrwydd.
Archeoleg yw'r astudiaeth a'r arfer o ysgrifennu hanes bodau dynol a'u hamgylchedd o ddiwylliant materol. Mae hyn yn dibynnu ar nifer o wyddorau, sy'n esblygu ac yn mabwysiadu technegau newydd yn barhaus. Mae'r casgliadau yn ein caniatáu i ddarlunio edafedd storïau:

- sy'n archwilio cymdeithasau, cymunedau, pobloedd a digwyddiadau cymhleth: crefyddau / credoau / economeg / technoleg / gwrthdaro / diwylliant gweledol a'i ystyron.
- nodweddu natur gyfnewidiol 'Cymru' trwy'r oesoedd - mae'r rhan fwyaf o'r casgliadau yn hŷn na'r cysyniad o Gymru fel undod - ac yn adlewyrchu dylanwadau allanol o'r DU a thir mawr Ewrop.
- cysylltiadau rhwng diwylliannau - masnach, lledaenu syniadau, gwrthrychau, pobl, gwrthdaro a goresgyniad.
- rhyngweithiad bodau dynol, y dirwedd a'r amgylchedd, daearol a morwrol.
- yr arteffact a'i gyd-destun (ymdeimlad o ryfeddod) - cysylltiad clir a diriaethol i'r gorffennol ac unigolyn heb niwl hanes.
- y safleoedd a'u storïau - rhai wedi'u henwi mewn llenyddiaeth, ac eraill yn anhysbys mewn hanes.

Mae gan yr Archif Archeolegol ddefnyddwyr amryfal, o'r cyhoedd i ymchwilwyr ym maes y Celfyddydau a'r Dyniaethau, y Gwyddorau (archeofeteleg, cemeg, gwyddorau'r ddaear ac amgylcheddol, paleopatholeg, archeofotaneg, archeosŵoleg) a'r sawl sy'n ymwneud ag ymchwil trawsffiniol (e.e. newid amgylcheddol dros amser a thwf trefol). Ffurfiant gasgliadau cyfeirio meincnod mewn diwylliant materol cynnar (teipolegol, technegol a chelfyddyd hanesyddol).
Mae'r casgliadau hyn, a'r ddysg sy'n deillio ohonynt, yn tanategu ein cred yng nghynaliadwyedd amgylchedd ac asedau hanesyddol Cymru.

Mae'r Archif Hanesyddol yn cynnwys yr holl arteffactau, olion dynol, tystiolaeth amgylcheddol (e.e. esgyrn, samplau pridd), cofnodion papur (e.e. cynlluniau, nodiadau a thaflenni cofnodi, deunydd ffotograffig), cofnodion digidol ac unrhyw gofnodion ôl-gloddiad mewn unrhyw fformat, adroddiadau cadwraeth, cofnodion archif a chyhoeddiadau arbenigol.

Cwmpas y Casgliad
Rydym yn cadw 800,000 o wrthrychau a samplau gyda chofnodion a gwybodaeth ategol. Mae'r casgliad hwn wedi'i rannu'n saith adran weithredol, ac mae gan bob un, ar wahân i'r adran ôl-ganoloesol, guradur sy'n gyfrifol am ofalu am wrthrychau, a'n dealltwriaeth ohonynt yn y categorïau canlynol:

- Palaeolithig a Mesolithig (250,000 – 5,000 CC)
- Neolithig (5,000 – 2,500 CC)
- Yr Oes Efydd a'r Oes Haearn (2,500 CC – 75 OC)
- Y cyfnod Rhufeinig (75 – 400 OC)
- Canoloesol Cynnar (400 - 1060au OC) a Chanoloesol (1060 - 1485 OC)
- Ôl-ganoloesol (1485 -1800 OC)
- Niwmismateg: darnau arian, tocynnau a medalau o gyfnodau hynafol hyd heddiw.

Sut Rydym yn Casglu

Mae'r casgliadau archeoleg a niwmismateg yn tyfu mewn nifer o ffyrdd:
- **Rhoddion** - mae rhai pobl yn hapus i roi gwrthrychau neu gasgliadau pwysig i'r amgueddfa.
- **Cloddiad** - rydym yn cynnal nifer o gloddiadau ymchwil yng Nghymru. Rydym hefyd wedi gallu cefnogi, trwy grantiau, nifer fach o gloddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau ac archeolegwyr eraill yng Nghymru yn gyfnewid am y darganfyddiadau. Rydym hefyd yn derbyn archif archeolegol gan gloddiadau a gynhelir gan unedau contractio, gan ystyried Strategaethau Casgliadau amgueddfeydd lleol a sefydliadau eraill, megis Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- **Prynu** - prynir darganfyddiadau arwyddocaol iawn yn achlysurol. Caffaelir rhai gwrthrychau a darnau arian trwy'r Ddeddf Drysor ac mae'r darganfyddwr yn derbyn gwobr yn seiliedig ar y pris marchnad llawn.
- **Benthyciadau** - mae nifer fach o wrthrychau neu gasgliadau bach ar fenthyg hir dymor i ni o'u perchnogion. Golyga hyn fod y gwrthrychau ar gael i'w harddangos a'u hastudio ond nid ni sy'n berchen arnynt.

Cyd-destun Strategol

Y casgliadau archeoleg a niwmismateg yw'r dystiolaeth uniongyrchol 'o lygad y ffynnon' y seilir dehongliadau o'n gorffennol materol arni. Maent yn adnodd unigryw i ysgogi a harneisio brwdfrydedd dros gynhanes a hanes cynnar Cymru. Mae'r casgliadau hyn yn hanfodol i gyflwyno rhai themâu - **Perthyn, Gwreiddiau** a **Bywyd**, yn ogystal ag ysbrydoli **Creadigrwydd** - a blaenoriaethau a nodwyd yn y **Weledigaeth,** yn cynnwys ail-arddangos casgliadau archeoleg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a'r nod mwy hirdymor o greu Amgueddfa hanes ac archeoleg yn Sain Ffagan. Drwy ychwanegu at y casgliadau gallwn yn raddol ddatblygu darlun mwy cywir o'r gorffennol. Mae'r casgliadau hefyd yn adnodd pwysig ar gyfer astudio ac ymchwil yn y dyfodol.

Archeoleg: Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn sefydliad cymharol ddiweddar, ac

nid oes iddi'r un datblygiad hanesyddol â sefydliadau eraill o ran ei chasgliadau. Mae pwysigrwydd rhyngwladol y casgliadau wedi'i gydnabod yn llawn, ond ym maes archeoleg mae casgliadau sylfaenol yn cael eu ffurfio o hyd.

Mae rhaglen weithredol o waith maes ledled Cymru dros yr 20 mlynedd ddiwethaf wedi helpu datblygu rhai ardaloedd casglu: Pontnewydd, Little Hoyle (Palaeolithig); Burry Holms (Mesolithig); Mynydd Rhiw (Neolithig); Llanmaes (Yr Oes Efydd/Yr Oes Haearn); Caer-went (Rhufeinig); Llan-gors, Llanbedrgoch (Canoloesol Cynnar). Mae dulliau casglu eraill yn fwy goddefol ac yn digwydd ar hap, er enghraifft darganfyddiadau annisgwyl, eitemau Trysor, casgliadau o gloddiadau a noddwyd gan ddatblygwyr ac ati.

Niwmismateg: Mae datblygu unrhyw agwedd ar y casgliad o ddarnau arian a medalau yn dibynnu ar argaeledd sbesimenau addas. Mae gwobrwyon ymgyrchoedd 'Cymreig' a gwobrwyon ar gyfer dewrder yn ffurfio canran fach iawn o'r farchnad gyffredinol, a bydd grwpiau priodol ond ar gael yn achlysurol. Er hynny, mae hwn yn faes lle dylai'r Amgueddfa geisio gwella ei chasgliad. Y brif ffynhonnell o ddarnau arian Rhufeinig a Brythonaidd fydd achosion o Drysor, sy'n cael eu darganfod ar hap; darganfyddiadau unigol a gofnodir o dan y Cynllun Hynafiaethau Cludadwy neu'r Amgueddfa, yn yr un modd.
Mae'r strategaeth hon yn crynhoi nodau penodol a chylch gwaith yr Adran Archeoleg a Niwmismateg fel y mae'r perthyn i *Bolisi Caffael a Gwaredu Casgliadau* corfforaethol yr Amgueddfa.

Cryfderau'r Casgliadau

Palaeolithig a Mesolithig

- Ffawna cwaternaidd o safleoedd ogofâu yng Nghymru - yn cynnwys deunydd o gloddiadau adrannol yn ogofâu Pontnewydd, Cefn, Cae Gronw, Hoyle's Mouth a Little Hoyle. Hefyd deunydd o - Ogof Pen-y-fai ac Ogof Coygan.
- Deunydd Paleolithig (o'r cyfnodau cynharaf i *tua* 8,000 CC) - arteffactau lithig, ffawna a darganfyddiadau hominid - o safleoedd yng Nghymru, yn cynnwys Ogof Pontnewydd, lle darganfuwyd yr olion hominid cynharaf yng Nghymru, ac Ogof Pen-y-fai, un o'r safleoedd Uwch-baleolithig mwyaf toreithiog ym Mhrydain.
- Mesolithig (8,000-4,000 CC). Mae Cymru yn ardal gyfoethog o aneddiadau Mesolithig, ac mae'r casgliadau gorau yn perthyn i ran gynharaf y cyfnod. Mae caffaeliadau diweddar o waith maes yn Burry Holms ac o gloddiadau yn Rhuddlan a Llyn Aled Isaf wedi ychwanegu at y casgliad.

Neolithig

- Mae Neolithig (4,000-2,000 CC) yn cynnwys darganfyddiadau o feddrodau megalithig, ffatrïoedd bwyeill Graig Lwyd and Mynydd Rhiw a safleoedd aneddiadau.

Yr Oes Efydd a'r Oes Haearn

- Yr Oes Efydd (2500-800 CC) – Mae gan Gymru doreth o dirweddau claddu a defodol o'r Oes Efydd Cynnar, gyda nifer o gladdfeydd dynol pwysig a grwpiau

beddau yn y casgliadau, gan ddarlunio twf a llif arddulliau, diwylliannau a phobloedd.

- Yn ganolfan hir-sefydledig ar gyfer cloddio copr, plwm ac aur cynnar, roedd Cymru yn cefnogi ac yn bwydo traddodiadau gwaith metel cynnar ac roedd ei chymdeithasau Oes Efydd yn gysylltiedig â'r rhwydweithiau masnach a chyfnewid pellter hir dros y môr. Mae'r rhain wedi'u darlunio yn arbennig o dda trwy'r casgliad cyfoethog o addurniadau, arfau ac offer.
- Gellir hefyd gael cipolwg ar gredoau crefyddol, arferion a phryderon cymdeithasau'r Oes Efydd trwy gyfrwng grwpiau addunedol a chelciau amrywiol, sy'n lleoli ei phobloedd o fewn traddodiad gogledd-orllewinol ehangach. Am y rhesymau hyn, mae gan y casgliadau hyn arwyddocâd Ewropeaidd penodol.
- Yr Oes Haearn (800 CC-78 OC) - Mae hunaniaethau rhanbarthol a chyferbyniadau cryf yn nodweddu archeoleg a phobloedd yr Oes Haearn a oedd yn byw yn y rhan orllewinol hon o Ynys Prydain. Mae digonedd o fryngaerau a llociau amddiffynedig i'w cael, tra bod casgliadau a gloddiwyd o amrywiaeth o'r safleoedd hyn yn darlunio bywyd cymdeithasol a bywyd bob dydd sefydlog y cymunedau ffermio hyn.
- Gwelodd yr Oes Haearn ddechrau arddull gelfyddydol symudol nodweddiadol newydd ar draws Ewrop dymherus: Celf La Tène neu 'Geltaidd', ac mae'r casgliadau yn cynnwys nifer o arteffactau addurnedig o bwysigrwydd ac arwyddocâd Ewropeaidd o Gymru. Mae enghreifftiau yn cynnwys celc Llyn Fawr, casgliad addunedol Llyn Cerrig Bach, pentan haearn Capel Garmon a choron Cerrig-y-Drudion. Drwy'r casgliadau hyn o waith haearn ac efydd addurnedig, cawn gipolwg ar y llwythi, yr elit milwrol ac arweinwyr crefyddol a ddeuai i'r amlwg, a byddai nifer ohonynt yn cynnig gwrthwynebiad cadarn i'r fyddin Rufeinig oresgynnol yn ystod y ganrif gyntaf OC.

<u>Rhufeinig</u>

- Casgliad o ddeunydd milwrol o bwysigrwydd rhyngwladol o gaer Rufeinig *Isca* (Caerllion) a'r ardal.
- Casgliad mawr o ddarganfyddiadau Rhufeinig o'r ganolfan lengol ym Mrynbuga, rhagflaenydd Caerllion.
- Casgliad mawr o ddarganfyddiadau o gaer Rufeinig atodol *Segontium* (Caernarfon).
- Casgliad mawr o ddarganfyddiadau o gaerau atodol yng Nghymru, megis Aberhonddu, Gelli-gaer, Caersws, Castell-nedd a Chasllwchwr.
- Casgliad mawr o ddarganfyddiadau o safleoedd sifiliaid megis fila Llanilltud Fawr, fferm Llanddewi yn Hwytyn a Chaerwent, sef y dref Rufeinig bwysicaf yng Nghymru.
- Casgliad o ddarganfyddiadau o safleoedd diwydiannol a mwyngloddio Rhufeinig yng Nghymru, yn cynnwys Holt, storfan gweithfeydd yr Ugeinfed Lleng, a Dolau Cothi, sef yr unig gloddfa aur Rufeinig y gwyddom amdani ym Mhrydain.

<u>Canoloesol Cynnar</u>

- Casgliad nodal o gerrig arysgrifedig a cherflunwaith cerrig canoloesol cynnar - yn cynnwys castinau - o bwysigrwydd rhyngwladol, sy'n ffurfio ffynhonnell uniongyrchol o wybodaeth ynglŷn â'r cyfnod.
- Casgliadau o dri safle o arwyddocâd rhyngwladol, sy'n darparu cyd-destun a

meincnodau cronolegol ar gyfer diwylliant materol gorllewin Prydain yn y cyfnod hwn: Dinas Powys, crannog Llyn Syfaddan a Llanbedrgoch.
- Rhai arteffactau unigol o bwysigrwydd hanfodol ar sail archeolegol, celfyddydol, hanesyddol neu dechnolegol (e.e. cloch Llangwnnadl, dyrnfol cleddyf Smalls, breichdlws arian Llychlynnaidd Y Traeth Coch)
- Olion dynol o Landochau, sef y casgliad poblogaeth fwyaf o'r cyfnod canoloesol cynnar yng Nghymru (potensial mawr ar gyfer ymchwil).

Canoloesol a Diweddarach
- Casgliadau arwyddocaol o safleoedd canoloesol o bwysigrwydd cenedlaethol (y mae nifer ohonynt dan ofal Cadw), yn enwedig cestyll ac abatai.
- Cwch Magwyr (y cwch o'r 13^{eg}ganrif sydd wedi goroesi orau ym Mhrydain).
- Casgliad cenedlaethol o fatricsau ac argraffiadau seliau (wedi'u cofnodi'n dda).
- Casgliad cyfeirio cenedlaethol o serameg canoloesol.
- Casgliad cenedlaethol o deils llawr canoloesol (wedi'u cyhoeddi'n llawn).
- Casgliad o gerflunwaith cerrig o bwysigrwydd cenedlaethol, yn cynnwys elfennau sydd wedi goroesi o ddrws cabidyldy Ystrad Fflur.
- Casgliad cynyddol o emwaith aur ac arian canoloesol a diweddarach.
- Arteffactau unigol o arwyddocâd eiconig (e.e. pen carreg Llywelyn o Ddegannwy, carreg 'Levelinus', mownt arfbeisiol o Harlech gydag arfbais Owain Glyn Dŵr).
- Arteffactau unigol o ansawdd uchel a phwysigrwydd cenedlaethol ar sail archeolegol, celfyddydol, hanesyddol neu dechnolegol (e.e. modrwy Rhaglan, ffigwr crog Cemais, diptych eifori Llandaf, tlws Oxwich)

Niwmismateg
Casgliad cyffredinol coeth o ddarnau arian o'r Groegiaid hyd heddiw. Ceir rhai meysydd o bwysigrwydd cenedlaethol/rhyngwladol, sy'n deillio o gelciau a chasglu pwrpasol.
- Darnau arian hynafol Rhufeinig a Groegaidd.
- Darnau arian Seisnig a darnau arian o Ynys Prydain, yn enwedig Sacsonaidd, Normanaidd a darnau arian Canoloesol diweddarach o fathdai yng Nghymru a bathdai eraill yng ngorllewin Ynys Prydain.
- Deunydd sy'n perthyn i Gymru, yn enwedig:
- darnau arian Rhufeinig (yn enwedig celciau Pen-y-bont ar Ogwr [ar fenthyg] a Rogiet);
- darnau arian o gyfnod Siarl y Cyntaf (bathdy Aberystwyth; celc Tregwynt; darnau arian y Rhyfel Cartref).
- tocynnau, arian papur a pharaniwmismatica Cymreig.
- Medalau - yn enwedig rhai sy'n coffáu gweithredoedd o ddewrder sifil - yn enwedig y rheini sy'n perthyn i Gymru neu weithredoedd y Cymry.
- Comparanda - darnau arian Ewropeaidd, yr Ymerodraeth Brydeinig a Byd-eang.

Gwendidau'r Casgliadau

Palaeolithig a Mesolithig
- Casgliad cyfyngedig o ffawna Cwaternaidd o safleoedd ogofâu yng Ngogledd Cymru yn cynrychioli'r cyfnod Uwch Balaeolithig.

- Deunydd Palaeolithig (o'r cyfnod cynharaf hyd at *tua* 8,000 CC). Gwendid o ran arteffactau lithig a ffawna Uwch Balaeolithig Cynnar o safleoedd yng Nghymru. Mae'r casgliad hefyd yn wan o ran casgliadau o safleoedd awyr agored.
- Mesolithig (8,000-4,000 CC). Mae Cymru yn ardal gyfoethog o ran aneddiadau Mesolithig, ond mae'r casgliad yn gyfyngedig iawn o ran darganfyddiadau Mesolithig diweddarach a gloddiwyd yn dda gyda gwybodaeth stratigraffig dda. Ceir gwendid hefyd o ran darganfyddiadau o gasgliadau a gloddiwyd o'r parthau rhynglanwol, yr unig ardaloedd lle cedwir deunydd organig.

Neolithig
- Mae'r casgliad o faint gweddol fach.

Yr Oes Efydd a'r Oes Haearn
- Nifer gyfyngedig o gasgliadau o anheddau'r Oes Efydd a'r Oes Haearn ledled Cymru.
- Dyddio a samplau amgylcheddol cyfyngedig er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â thirweddau, cyfundrefnau ffermio a gweithgareddau anheddu yn ystod cynhanes diweddarach.
- Mae'r casgliad o olion dynol yn wan ac annodweddiadol ar gyfer Yr Oes Efydd a'r Oes Haearn.

Rhufeinig
- Ystod gyfyngedig o ddeunydd o'r ystod amrywiol o safleoedd gwledig ledled Cymru, yn enwedig y rheini o darddiad mwy gwerinol.
- Samplau amgylcheddol cyfyngedig i ddarparu gwaith modelu tirwedd fanwl.
- Prinder casgliadau o fynwentydd ac olion dynol.

Canoloesol Cynnar
- Mae nifer a mathau'r arteffactau a gynrychiolir yn brin o ran nifer a'r ystod amserol ac o ganlyniad ond yn adlewyrchiad rhannol o Gymru a'i phobl yn y canoloesoedd cynnar. Mae darganfyddiadau newydd o'r cyfnod hwn yn brin iawn.

Canoloesol a Diweddarach
- Mae'r casgliad yn weddol fach ac o ystod gyfyngedig: mae bylchau sydd angen ei llenwi a meysydd sydd angen eu hatgyfnerthu.
- Mae'r casgliad ôl-ganoloesol (*tua* 1540au – 1900) yn fach ac annatblygedig, ac yn gorgyffwrdd â chasgliadau a ddelir gan yr Adrannau Hanes Cymdeithasol a Chelf (yn enwedig serameg).

Niwmismateg
- Rhannu'r casgliad rhwng safleoedd/adrannau gwahanol.
- Y posibilrwydd o golli celc Pen-y-bont ar Ogwr os gelwir y benthyciad yn ôl. (Prin yw'r sbesimenau pwysig eraill sydd ar fenthyg.)

Cyfleoedd

- Bydd datblygu arddangosiadau hyblyg newydd, megis 'Gwreiddiau' ac yn

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r casgliadau ac yn codi eu proffil.

- Rhagbryniant 'Trysor' yng Nghymru. Mae hyn wedi galluogi'r Amgueddfa Genedlaethol i gaffael eitemau o bwysigrwydd cenedlaethol y datgenir fel 'Trysor', gan ddefnyddio'r Grant Caffael Sbesimenau a grantiau allanol (e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri, NACF ac ati)
- Darparu cymorth i gloddiadau a gynhelir gan sefydliadau ac archeolegwyr eraill yng Nghymru yn gyfnewid am eu darganfyddiadau.
- Buddsoddi mewn prosiectau storio megis y Ganolfan Casgliadau a Mynediad, Nantgarw; Bydd Storfa ac Archif Adain Gorllewinol yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd yn sicrhau lle ar gyfer twf y casgliadau.
- Bydd datblygiad arfaethedig Amgueddfa Hanes ac Archeoleg yn Sain Ffagan, gydag oriel fwy, yn gwella cysylltiad presennol y cyhoedd â'r casgliadau
- Mae creu Amgueddfa Gelf Genedlaethol yn darparu cyfle i arddangos rhywfaint o'r Casgliad Serameg Cenedlaethol i ddatblygu ar sail y serameg ôl-ganoloesol sy'n cael ei harddangos ar hyn o bryd.
- Mae archwilio mannau darganfod casgliadau 'Trysor' posibl trwy waith maes yn gwella'u potensial o ran gwybodaeth.
- Mae'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy yn darparu cyfleoedd i gynnal gwaith dilynol ar ôl darganfyddiadau ar hap gydag arolygon cerdded caeau, gan ddefnyddio gwirfoddolwyr ar adegau, megis Fferm Cophill, Cas-gwent, sydd wedi darganfod offerynnau fflint a gwastraff gwneuthur offer cerrig sy'n dyddio o'r Cyfnod Uwch Balaeolithig i'r Oes Efydd.
- Cydweithio posibl gydag Amgueddfa'r Bathdy Brenhinol i wella'r arddangosfa o ddarnau arian.
- Defnyddio'r casgliad ar gyfer mentrau addysgiadol y dyfodol.

Bygythion

- Y posibilrwydd o golli eitemau sydd ar fenthyg a arddangosir ar hyn o bryd oherwydd prinder lle yn yr oriel.
- Pwysau allanol i ddychwelyd cerrig arysgrifedig a cherfluniau cerrig canoloesol cynnar i gymunedau lleol, yn enwedig os nad ydynt yn cael eu harddangos.
- Bydd unrhyw brinder storfeydd yn ffactor cynyddol a fydd yn cyfyngu ar allu'r Adran i dderbyn casgliadau mawr.
- Prinder arian i gaffael eitemau a nodir fel 'Trysor' ac eitemau neu gasgliadau eraill o werth uchel/pwysigrwydd cenedlaethol.
- Anallu presennol i arddangos darganfyddiadau newydd ysblennydd neu ddarganfyddiadau ymchwil newydd, gan arwain at ddiffyg dealltwriaeth gyhoeddus ynglŷn ag arwyddocâd y casgliadau - gallai hyn effeithio ar gaffaeliadau.

Casgliadau Goddefol neu Gaeedig

Archeoleg
Casgliadau goddefol: Ffawna Cwaternaidd (mewn ymgynghoriad gyda'r Adran Ddaeareg)
Casgliadau Caeedig: Tramor Cyn-hanesyddol; Lloegr Rufeinig; Rhufeinig nad yw'n

ymwneud ag Ynys Prydain; Atgynyrchiadau Clasurol; Canoloesol ac Ôl-ganoloesol nad yw'n ymwneud ag Ynys Prydain.

Niwmismateg
Casgliadau goddefol: Groegaidd, yr Oes Haearn, Rhufeinig, Brythonaidd, Ewropeaidd a Byd-eang; tocynnau; medalau coffáol; arian papur.
Casgliadau caeedig: Dim

Strategaeth ar gyfer Datblygu Casgliadau

Rydym yn ceisio casglu a chaffael deunydd i wella'r arddangosiadau a chynyddu ystod y casgliadau cyfeirio, er mwyn galluogi gwell dealltwriaeth o'r gorffennol. Mae ein polisïau caffael penodol fel a ganlyn:

Palaeolithig a Mesolithig
- Casglu sbesimenau i wella'r casgliad o ffawna Cwaternaidd sydd o bwysigrwydd i archeoleg ac astudiaethau mamaliaid Cwaternaidd yng Nghymru.
- Casglu sbesimenau - yn enwedig arteffactau carreg, olion ffawnaidd ac esgyrn hominid o'r cyfnod Palaeolithig.
- Cynyddu'r ystod o ddeunydd Mesolithig o safleoedd aneddiadau ac o barthau rhynglanwol Cymru.

Neolithig
- Caffael deunydd Neolithig perthnasol o safleoedd yng Nghymru a thu hwnt - beddrodau megalithig, ffatrïoedd bwyeill a safleoedd aneddiadau.

Yr Oes Efydd a'r Oes Haearn
- Casglu deunydd yr Oes Efydd o ystod o henebion claddu a defodol o bwysigrwydd strategol, cloddfeydd, aneddiadau a phrosiectau cloddio tirwedd a gwaith maes.
- Caffael darganfyddiadau Oes Efydd arwyddocaol a darganfyddiadau gwaith metel detholiadol.
- Gwella'r gwaith o gasglu samplau dadansoddol, dyddio ac amgylcheddol, er mwyn, yn gyntaf, gynyddu ein dealltwriaeth o'r casgliadau presennol, ac yn ail, cael cymaint o wybodaeth â phosibl ynglŷn â thirweddau, cyfundrefnau ffermio a gweithgareddau anheddu yn ystod cynhanes diweddarach.
- Caffael deunydd Oes Haearn o fryngaerau, llociau, aneddiadau a phrosiectau gwaith maes tirwedd a phrosiectau cloddio, er mwyn cryfhau dyfnder y casgliadau a sicrhau eu bod yn cynnwys Cymru gyfan.
- Caffael trysor Oes Haearn arwyddocaol a darganfyddiadau celf La Tène a darganfyddiadau gwaith metel detholiadol, er mwyn gwella dyfnder ac amrywiaeth y casgliad hwn.
- Olion dynol: casglu esgyrn dynol o gladdedigaethau ac amlosgiadau sy'n gysylltiedig â grwpiau beddau (e.e Pobl y Biceri, claddedigaethau rhyfelwyr yr Oes Haearn Ddiweddar).
- Casglu gwybodaeth gymharol a deunydd archifol ynglŷn â chasgliadau, safleoedd a phrosiectau yng Nghymru a thu hwnt, er mwyn ymestyn perthnasedd a chwmpas ein casgliadau mewn cyd-destun rhyngwladol.

Rhufeinig

- Casglu a chaffael deunydd sy'n cynrychioli a darlunio'r cyfnod Rhufeinig yng Nghymru a'r Gororau.
- Casglu deunydd o ganolfannau'r llengoedd Rhufeinig yng Nghaerllion a Brynbuga, naill ai casgliadau a gloddiwyd neu ddarganfyddiadau ar hap.
- Casglu darganfyddiadau o gaer Rufeinig *Segontium*, Caernarfon, a'r cyffiniau.
- Casglu sbesimenau sy'n gwella cryfderau presennol deunydd o safleoedd milwrol, sifilaidd a diwydiannol/cloddio yng Nghymru.
- Caffael darganfyddiadau Trysor Rhufeinig arwyddocaol.

Canoloesol Cynnar

- Casglu a chaffael sbesimenau sy'n cynrychioli a darlunio'r cyfnod canoloesol cynnar yng Nghymru a'r Gororau.
- Caffael cerrig arysgrifedig a cherfluniau cerrig canoloesol cynnar sy'n gwella'r casgliadau arddangos a chyfeirio presennol (castiau yn bennaf).
- Cynyddu ystod deunydd canoloesol cynnar, er enghraifft trwy gefnogaeth barhaus i waith maes adrannol a chaffael darganfyddiadau ar hap.
- Atgyfnerthu meysydd gwan yn y casgliadau lle bynnag bo'n bosibl (e.e. gwaith metel, deunydd organig)
- Casglu diwylliant materol canoloesol cynnar lle gellir cael gwybodaeth brin ynglŷn â'i gyd-destun.
- Cynnal casgliad o olion dynol nodweddiadol i gynorthwyo ymchwil ar boblogaeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn

Canoloesol a Diweddarach

- Casglu a chaffael sbesimenau sy'n cynrychioli a darlunio'r cyfnod canoloesol yng Nghymru a'r Gororau.
- Casglu deunydd canoloesol i wella ystod y casgliadau a chynrychiolaeth y mathau gwahanol o safleoedd ledled Cymru.
- Gwella'r casgliad cyfeirio o seliau a matricsau seliau canoloesol o Gymru a sbesimenau cymharol o Ynysoedd Prydain.
- Gwella'r casgliad o deils llawr canoloesol o safleoedd yng Nghymru.
- Atgyfnerthu'r casgliad o emwaith canoloesol, Tuduraidd a diweddarach
- Atgyfnerthu meysydd gwan casgliadau (arfau, cerflunwaith, arysgrifau, lledr, gwrthrychau defosiynol, ategolion gwisgoedd)
- Caffael casgliadau o safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol er mwyn gwella cynrychiolaeth ranbarthol diwylliant materol ledled Cymru
- Caffael darganfyddiadau 'oes y trawsnewidiad' / ôl-ganoloesol o safleoedd yng Nghymru, gan ystyried buddiannau adrannau eraill

Niwmismateg

- Caffael darnau arian a ddarganfuwyd yng Nghymru o safleoedd archeolegol a darganfyddiadau ar hap, yn cynnwys achosion o Drysor.
- Casglu medelau ymgyrchoedd Prydeinig a medelau ar gyfer dewrder, yn enwedig rhai milwrol, sy'n perthyn i orchestion y Cymry, gan ystyried buddiannau adrannau ac amgueddfeydd eraill.
- Cynyddu ystod y casgliadau o docynnau, arian papur a pharamiwmismatica

Cymreig, gan ystyried buddiannau adrannau eraill.
- Caffael sbesimenau a fydd yn gwella cryfderau'r prif feysydd casglu - Groegaidd, Rhufeinig, Brythonaidd.
- Casglu sbesimenau a fydd yn gwella'r casgliad cymharol presennol o ddarnau arian Ewropeaidd, yr Ymerodraeth Brydeinig a Byd-eang.
- Caffael sbesimenau o safon arddangos ar gyfer *Tarddiadau* ac arddangosfeydd eraill.
- Caffael sbesimenau fel adnodd ar gyfer dysgu, arddangosfeydd a darlithoedd.

Polisi Gwaredu

Mae'r Adran Archeoleg a Niwmismateg yn gweithredu yn unol â pholisi cyffredinol *Polisi Caffael a Gwaredu Casgliadau* (2006) Amgueddfa Cenedlaethol Cymru.

- Mae'r casgliadau archeolegol Cymreig yn cynnwys eitemau, p'un a arddangosir hwy neu beidio, sy'n cynrychioli tystiolaeth faterol ar gyfer cynhanes a hanes cynnar Cymru. Ni waredir deunydd archeolegol gyda tharddiad Cymreig, a deunydd cymharol hanfodol ar gyfer ei ddehongli, heblaw am o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol.
- Mae swm y deunydd cymharol yn fach. Trosglwyddwyd rhai casgliadau, nad oeddynt yn berthnasol i Gymru, i amgueddfeydd priodol eraill yn yr 1970au a'r 1980au. Trosglwyddwyd y deunydd milwrol o'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd i'r Amgueddfa Gatrodol yng Nghastell Caerdydd. Derbyniwyd casgliad ethnograffig bach, ond arwyddocaol, gan amgueddfa Horniman; tra aeth y casgliadau Eifftaidd i'r Amgueddfa Hynafiaethau Eifftaidd, Prifysgol Cymru, Abertawe. Ni ragwelir y caiff unrhyw gasgliadau eraill eu trosglwyddo.
- Mae unrhyw warediadau niwmismatig yn debygol o fod yn brin iawn ac yn gyfyngedig i sbesimenau a brynwyd sy'n (i) ddeunydd dyblyg dilys; (ii) eitemau y gellir eu gwerthu neu eu cyfnewid er mwyn caffael gwell enghraifft o'r un peth. Byddai'r elw o werthu deunydd niwmismatig ond yn cael ei ddefnyddio i brynu mwy o sbesimenau niwmismatig.

2.2 CELF

Cyflwyniad

Mae Amgueddfa Cymru yn gartref i'r casgliad cenedlaethol o gelf Gymreig a'r casgliad cenedlaethol Cymreig o gelf Ewropeaidd a Byd-eang. Mae'r Adran Gelf yn gofalu am y casgliadau hyn, ac yn bwriadu caffael darnau celf eraill i ychwanegu atynt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, ac i gadw, cyflwyno a hyrwyddo treftadaeth a diwylliant Cymru mewn cyd-destun byd-eang.

Mae'r strategaeth hon yn disodli 'Polisi Caffael a Gwaredu'r Casgliadau' a luniwyd yn 1995-6 (diweddarwyd 1998), ac yn adlewyrchu ein 'Gweledigaeth' a datblygiadau mawr eraill dros y ddeng mlynedd ddiwethaf.

Yn ystod y degawd hwnnw, trawsnewidiwyd yr amgylchedd gweithredu ar gyfer pob casgliad celf cenedlaethol yn y DU. Ers 1996 mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi datblygu i fod y ffynhonnell unigol fwyaf o arian caffael, ac mae hefyd wedi gosod agenda mynediad nodedig. Rydym hefyd wedi gweithio'n fwyfwy agos gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams, sef elusen annibynnol, sy'n aml yn cefnogi ein caffaeliadau o ddarnau celf o'r cyfnod ar ôl 1900, yn ogystal â datblygu ei gasgliad ei hun yn y maes hwn. Nid yw ein hadnoddau wedi cynyddu yn unol â chwyddiant, heb sôn am y twf cyflym mewn prisiau mewn sawl maes o'r farchnad gelf. Felly mae cefnogaeth allanol ar gyfer caffaeliadau wedi dod yn fwyfwy pwysig, ac mae'n achosi pryder cynyddol nad yw bellach yn bosibl caffael nifer o ddarnau celf a fyddai'n gwella ein casgliad.

Mae ein gweledigaeth (2004-5) ar gyfer 'amgueddfa ddysg o safon ryngwladol' wedi pennu nifer o nodau eang. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod yr hyn a gesglir gennym a'r hyn rydym yn ei ddysgu o ymchwil yn berthnasol i'r 21ain ganrif.
- Dathlu creadigrwydd celf ac artistiaid, dyfeisiau a dyfeiswyr, y syniadau sydd wedi ysbrydoli ein byd.
- Parhau â'r buddsoddiad mewn celf gyfoes sy'n gosod celfyddydau Cymru mewn cyd-destun rhyngwladol.

O 2007, caiff ein casgliadau celf eu harddangos yn yr Amgueddfa Gelf Genedlaethol, a fydd yn llenwi llawr uchaf y safle ym Mharc Cathays. Bydd arddangosiadau ar eu newydd wedd yn galluogi ymwelwyr i ymgysylltu'n well â'r casgliadau Celf a'r storïau a adroddir ganddynt.

Mae ein hymgymhoriad cyhoeddus ac ymgynghoriad grŵp cymheiriad 'Gweledigaethau o'r Dyfodol' 2002 a'r astudiaeth dichonoldeb a gynhaliwyd yn 2005 a gomisiynwyd ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru ynglŷn ag arddangos y Casgliadau Celf cenedlaethol Cymreig a Chelf ryngwladol yn y dyfodol gan David Clarke Associates yn cynnig y dylai ein casgliadau celf esblygu i ffurfio craidd Oriel Genedlaethol Cymru. Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys casgliadau a fydd yn dylanwadu ar waith casglu yn y dyfodol. O'r adroddiad olaf:

- Rhaid i Oriel Genedlaethol fod ag iddi agwedd Gymreig nodweddiadol, ond ni ddylai fod yn Amgueddfa Gelf Gymreig.

- Hanfod Oriel Genedlaethol yw arddangos y casgliadau, ond gyda chyswllt annatod â'r celfyddydau modern a disgyblaethau eraill, ac mewn strategaethau hyblyg a chyfnewidiol o arddangos ac addysg.

- Dylai fod yn flaenoriaeth genedlaethol i sicrhau bod gan ddeiliaid casgliadau [yng Nghymru] yr adnoddau i barhau i gaffael gwaith...gan artistiaid o Gymru ac artistiaid rhyngwladol.

Yn ystod y degawd nesaf, bydd gwell ffocws i'n casglu, caiff ei dargedu fwyfwy at y storïau rydym yn ceisio'u hadrodd, ac ar faterion o berthnasedd cyfoes. Fodd bynnag, erys ansawdd esthetig a phwysigrwydd yn rhaganghenraid unrhyw gaffaeliad arwyddocaol. Ni fyddwn yn caffael gweithiau nad oes lle gennym iddynt, neu nad ydym yn gallu gofalu amdanynt yn ddigonol.

Yn ddiweddar rydym wedi llunio nifer o gynlluniau gweithredu i ddatblygu casgliadau mewn meysydd o flaenoriaeth. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn ymdrin â chelfyddyd gymhwysol ar ôl 1850, celfyddyd gain o 1900, a Chrefftau, a chaiff eraill, er enghraifft yn ymwneud â Ffotograffiaeth a dulliau celf newydd, eu paratoi'n fuan.

Cwmpas y Casgliad

Rydym yn cadw Casgliad Celfyddyd Gain Cenedlaethol Cymru a Chelfyddyd Gymhwysol o'r Hen Fyd hyd heddiw. Mae'r casgliad yn un o bedwar casgliad celf genedlaethol yn y DU sydd wedi'u lleoli y tu allan i Lundain, ac fel ein cydweithwyr yng Nghaeredin, Belfast a Lerpwl, rydym yn cadw gweithiau o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn cysylltu yn rheolaidd ynglŷn â chaffaeliadau gyda'r casgliadau celf Prydeinig a leolwyd yn Llundain, yn enwedig Oriel Genedlaethol Prydain, Oriel Tate, Amgueddfa Victoria ac Albert, a'r Amgueddfa Brydeinig. Rydym hefyd yn ceisio annog amgueddfeydd lleol yng Nghymru i gasglu darnau celf.

Mae'r casgliad yn cynnwys 1799 o baentiadau olew, 8305 llun dyfrlliw a lluniau, 147 portread miniatur, 221 llyfr braslunio, tua 13900 o brintiau a phosteri, 3112 o ffotograffau, 562 cerflun a nifer fach ond cynyddol o weithiau mewn dulliau celf newydd amrywiol, ynghyd â 9633 darn o grochenwaith, porslen a gwydr, 551 o ddarnau celf arian, 243 enghraifft o grochenwaith Japaneaidd a 357 gwrthrych celfyddyd gymhwysol mewn deunyddiau eraill, yn cynnwys eifori a Jâd. Mae'r casgliad yn cynnwys darnau celf o darddiad Cymreig ac a ysbrydolwyd gan Gymru, a darnau celf o fannau eraill, ac mae'r ddau o werth cyfartal i'n diben ni.

Cryfderau, Gwendidau a Chyfleoedd

<u>Cryfderau</u>

Y meysydd o ragoriaeth a phwysigrwydd rhyngwladol yw:

- Paentiadau pwysig gan Realyddion, argraffiadwyr ac ôl-argraffiadwyr Ffrengig, a cherflunwaith gan Rodin a'i gyfoeswyr
- Paentiadau olew Ewropeaidd eraill o'r Dadeni i'r 20fed ganrif (nifer gymharol fach ond y rhan fwyaf o ansawdd uchel iawn).
- Celfyddyd Brydeinig y 18fed ganrif
- 'Cerflunwaith Newydd' diwedd y 19eg ganrif
- Celfyddyd Brydeinig yr 20fed ganrif
- Casgliad cynhwysfawr o gelfyddyd gan artistiaid o Gymru o'r 18fed ganrif hyd heddiw, yn cynnwys corff sylweddol o waith gan Richard Wilson, Thomas Jones, John Gibson, Penry Williams, Augustus John, Gwen John, David Jones, a Ceri Richards.
- Casgliad personol Graham Sutherland (893 darn o waith)
- Portreadau o ffigurau o Gymru mewn cyfryngau amrywiol.
- Celfyddyd dopograffig a thirluniau o Gymru
- Casgliad mawr ac eang o ddarnau celf ar bapur.
- Un o'r prif gasgliadau o serameg yn y DU, yn cynnwys crochenwaith a phorslen a wnaed yn ffatrïoedd de Cymru rhwng y 1760au a'r 1920au, a chasgliad pwysig o borslen cyfandirol o'r 18fedganrif, a chrochenwaith a wnaed yn Lloegr o'r cyfnod canoloesol diweddar hyd heddiw.
- Casgliad gwych o ddarnau celf arian Seisnig o gyfnod y Dadeni hyd ganol y 19eg ganrif, yn cynnwys darnau pwysig ar gyfer noddwyr Cymreig, a gefnogir gan gasgliad Jackson sydd ar fenthyg (benthyciwyd yn 1922, prynwyd hanner y casgliad yn 2002), ac eiddo benthycwyr eraill, yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru.
- Casgliad cynyddol o gelfyddyd fodern a chelfyddyd gymhwysol gyfoes

<u>Gwendidau</u>

Ffurfiwyd y casgliadau o gelfyddyd gain yn bennaf gan roddion mawr (megis cymynrodd y chwiorydd Davies) yn hytrach nag ymchwil gweithredol tuag at nodau siartr 1907 yr Amgueddfa ('ffurfio darlun cyflawn o hanes celfyddyd...yng Nghymru' a hyrwyddo addysg gyhoeddus). Mae cyfnodau o dlodi cymharol, yn enwedig yn ystod y 1930au ac ar hyd o bryd, wedi atal caffael gweithiau allweddol gan artistiaid a gwneuthurwyr Cymreig, a gweithiau Ewropeaidd a byd-eang sy'n gysylltiedig â Chymru. Rydym yn arbennig o wan o ran celfyddyd diwylliannau y tu hwnt i Ewrop.

Yn rhannol, rydym ond yn gallu cyflwyno stori datblygiad celfyddyd hanesyddol yng Nghymru o fewn cyd-destun Prydeinig ac Ewropeaidd ehangach. Mae ein casgliadau o gelfyddyd o'r Almaen a'r Iseldiroedd o'r 16eg ganrif a chelfyddyd o'r Iseldiroedd o'r 17eg ganrif yn fach iawn, er gwaethaf eu pwysigrwydd canolog i beintio cynnar ym Mhrydain. Nid oes gennym unrhyw ddarn o gelfyddyd Ffrengig o'r 18fed ganrif o unrhyw arwyddocâd, er gwaethaf ein gweithiau cynharach gan Poussin a Claude a'n Hargraffyddwyr. Mae ein casgliad o gelfyddyd Brydeinig o'r 19eg ganrif yn arbennig o wan.

Sinderela byd y celfyddydau yw ffotograffiaeth o hyd. Mae gan yr Adran Gelf gasgliadau arwyddocaol o ffotograffiaeth hanesyddol, yn cynnwys portreadaeth, ac mae hefyd yn casglu celfyddyd gyfoes yn cynnwys ffotograffau a ffilm. Fodd bynnag, ceir casgliadau mawr o ffotograffau yn yr Adran Ddiwydiant (yn enwedig deunydd

John Dillwyn Llewellyn) ac yn Sain Ffagan. Yn wahanol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, nid oes gan yr Amgueddfa arbenigwr ffotograffiaeth ar hyn o bryd. Bydd agor y Ganolfan Ffotograffiaeth Genedlaethol ym Margam yn golygu y bydd yn hanfodol ailasesu'r casgliadau hyn.

O ran celfyddyd fodern a chyfoes, er gwaethaf caffael yn ddiweddar lawer o'r casgliad a grëwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru rhwng yr 1950au a'r 1980au, nid yw'r casgliad o gelfyddyd Gymreig yn ddigonol, yn enwedig o ran gwaith mwy diweddar, ac mae diffyg lle wedi rhwystro gwaith casglu yn sylweddol, gan atal caffael paentiadau mawr iawn, cerflunwaith ar raddfa fawr neu gelfyddyd gosodiad yn benodol. Mae ein casgliad o gelfyddyd ryngwladol ers 1945 yn wan iawn, gan ei gwneud yn amhosibl gosod cyd-destun ar gyfer celfyddyd Gymreig y cyfnod, a chan mai hwn yw un o'r meysydd drutaf o'r farchnad gelfyddyd, mae'r gwendid hwnnw yn debygol o barhau.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd yn casglu celfyddyd hanesyddol a chyfoes sy'n gysylltiedig â Chymru. Er bod cyswllt ar lefel guradol, dylid integreiddio polisïau'r ddau sefydliad yn agosach.

Ym maes Celfyddyd Gymhwysol, mae'r canlynol yn feysydd ychwanegol sy'n achosi pryder:

- mae ffiniau disgyblaethol ad hoc gyda meysydd eraill Amgueddfa Cymru, yn enwedig Sain Ffagan - Amgueddfa Werin Cymru wedi arwain at gasgliad gyda chanolbwynt cul ar serameg a darnau celfyddyd arian, gan arwain at gynrychiolaeth wael o 'gelfyddydau dylunio' eraill. Ar y cyfan, rydym wedi colli'r cyfle i gynrychioli pwysigrwydd celfi, tecstilau, gemwaith ac ati yn hanes rhyngwladol dylunio.
- Diffyg eglurder ynglŷn â chasglu cyfoes, sef canlyniad gorgyffwrdd â Sain Ffagan, a hefyd gyda'r Adran Ddiwydiant.
- Mae lleoliad y casgliad Celfyddyd Gymhwysol o fewn yr Adran Gelf wedi arwain at ganolbwyntio ar gynnwys esthetig deunydd Celfyddyd Gymhwysol. Efallai y bydd arddangosiadau o Gelfyddyd Gymhwysol yn y dyfodol hefyd yn ceisio adrodd straeon ynglŷn â swyddogaeth ac arwyddocâd cymdeithasol darnau celf.
- Ni cheir cynrychiolaeth dda iawn o gwbl o gelfyddyd gymhwysol a dylunio diwylliannau y tu hwnt i Ewrop (mae hyn hefyd yn wir am gelfyddyd gain). Mae hyn yn ein harwain at safbwynt anghytbwys iawn, sy'n canolbwyntio ar Ewrop, o'r hyn sy'n ffurfio celfyddyd a dylunio – sefyllfa sy'n annerbyniol mewn gwlad a chanddi ddiwylliannau amrywiol fel Cymru lle mae ein prif gynulleidfa darged mewn dinasoedd amrywiol fel Caerdydd, Casnewydd, Bryste ac ati.

Yn fwy cyffredinol, mae staff curadol bach yr Adran Gelf (Ceidwad, dau Bennaeth Adran a thair swydd curadol iau ar hyn o bryd) ac ymrwymiad trwm i arddangosfeydd a rhaglenni cyhoeddus wedi arwain at ddiffyg arbenigedd ac amser i'w ymrwymo at gaffael, neu i astudio a meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd gennym eisoes.

<u>Cyfleoedd</u>

Er gwaethaf y gostyngiad sylweddol mewn arian ar gyfer caffael Celfyddyd dros yr ugain mlynedd ddiwethaf, yn fewnol ac yn allanol fel ei gilydd, mae'r Amgueddfa wedi

parhau i gaffael darnau celfyddyd. Cydnabyddir yn gyffredinol nad yw casgliadau statig yn gallu bod yn hollol greadigol: Mae caffaeliadau newydd yn arddangos hyder ac ymrwymiad, maent yn golygu straeon newydd, cysylltiadau newydd, ysbrydoliaeth ffres, cynnal ein proffil ac - yn gynyddol - y gallu i gydweithio â sefydliadau cymheiriaid. O ganlyniad Amgueddfa Cymru yw un o'r ychydig amgueddfeydd cenedlaethol yn y DU sy'n parhau i neilltuo ei arian caffael.

Mae nifer o arddangosiadau dros dro diweddar wedi canolbwyntio ar waith rhai o'r prif artistiaid a fu'n gysylltiedig â Chymru dros y ddau gant a hanner o flynyddoedd diwethaf, e.e. Richard Wilson, Thomas Jones, John Brett, Gwen John, Augustus John, David Jones, Cedric Morris, a Ceri Richards. Mae canolbwyntio ar y maes hwn wedi gwneud nifer o gaffaeliadau sylweddol yn bosibl, a bydd mwy yn dilyn.

Rydym yn ffodus iawn bob gennym bartner allanol sylweddol, sef Ymddiriedolaeth Derek Williams, elusen annibynnol sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd, sy'n aml yn cynorthwyo'r Amgueddfa i brynu darnau celfyddyd sy'n dyddio o'r cyfnod wedi 1900, gan gyfrannu hyd at 50% o gost yr Amgueddfa. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn caffael celfyddyd fodern a chyfoes gan ddefnyddio'i hadnoddau ei hun yn unig, ac yn gyffredinol gosodir y rhain ar fenthyciad hirdymor i'r Amgueddfa. Yn 2004, lluniwyd cytundeb atodol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Amgueddfa, gan greu cronfa ganmlwyddiant ar gyfer prynu celfyddyd fodern, y bydd y ddau barti yn cyfrannu o leiaf £200,000 ati bob blwyddyn am gyfnod o bum mlynedd.

Polisïau Adrannol

Rydym yn ceisio casglu:

- Celfyddyd Hanesyddol a Chyfoes gan artistiaid a gwneuthurwyr o Gymru, a chan artistiaid a gwneuthurwyr sy'n gweithio yng Nghymru.
- Celfyddyd Ewropeaidd a Rhyngwladol o werth esthetig ac addysgol
- Gweithiau sy'n adlewyrch effaith Cymru, ei thirwedd, ei hanes a'i diwylliant ar artistiaid gweledol a gwneuthurwyr o'r cyfnod ôl-ganoloesol i'r presennol.
- Gweithiau sy'n adlewyrchu hanes noddi a chasglu celfyddyd yng Nghymru
- Portreadau o ffigurau o Gymru, lle maent hefyd o deilyngdod esthetig
- Gweithiau sy'n darlunio amrywiaeth diwylliannol, ac yn berthnasol i anghenion ein cynulleidfaoedd newidiol

Rydym hefyd yn comisiynu gweithiau gan artistiaid ar gyfer ein hamgueddfeydd amrywiol, lle mae cyfleoedd yn codi.

Meysydd o Flaenoriaeth

<u>Celfyddyd Gain</u>

1. Celfyddyd Gymreig (1500-1900)
   Yn cynnwys gweithiau gan artistiaid o Gymru, a delweddau o bobl Cymru a llefydd yng Nghymru - craidd y casgliad, sy'n cynnwys tua hanner ein paentiadau olew a cherflunwaith a llawer o'n gweithiau ar bapur. Yn ganolog i'n diben ac i'r

Weledigaeth, ac wedi'u hesgeuluso yn gynyddol er mwyn canolbwyntio mwy ar Gelfyddyd ar ôl 1900.

Strategaeth Ddatblygu - Tra bod caffael celfyddyd hanesyddol yn dibynnu i raddau helaeth ar beth sydd ar y farchnad a phryd y mae ar gael, byddwn yn cynnal cysylltiadau gyda delwyr ac arwerthwyr arbenigol a gweithio'n fwy rhagweithiol gyda pherchnogion, a byddwn yn ceisio datblygu'r casgliad trwy fenthyciadau a chymynroddion, wrth barhau i brynu pryd bynnag y bo'n bosibl.

2. Celfyddyd Brydeinig a Rhyngwladol (1500-1900)
   Yn cynnwys gweithiau o gasgliadau Cymreig - o bwysigrwydd canolog, yn cynnwys nifer o'r gweithiau mwyaf poblogaidd yn yr amgueddfa, a'r rheini y mae galw mawr rhyngwladol amdanynt.

   Strategaeth ar gyfer Datblygu - fel (1.) uchod

3. Celfyddyd Fodern a Chyfoes (1900 i'r presennol)
   Yn cynnwys dulliau celfyddyd traddodiadol a newydd. O ran nifer, dyma'r prif faes twf, wrth i ni geisio adeiladu casgliad cynrychiadol o gelfyddyd Gymreig ac i gaffael gweithiau gyda chysylltiadau arbennig i gelfyddyd yng Nghymru, yn ogystal ag ychwanegu enghreifftiau pwysig o gelfyddyd Brydeinig, Ewropeaidd ac Americanaidd o'r cyfnod, ac o gelfyddyd diwylliannau eraill. Rydym yn ceisio adlewyrchu arferion sy'n datblygu gan artistiaid cyfoes.

   Strategaeth Ddatblygu - mae gwaith casglu ym maes Celfyddyd Fodern a Chyfoes yn gysylltiedig â'r fframwaith polisi a sefydlwyd gydag Ymddiriedolaeth Derek Williams ac a gyfarwyddir gan gynllun gweithredu'r Adran Gelf ar gyfer casglu Celfyddyd Gain sy'n dyddio o'r cyfnod ar ôl 1900.

<u>Celfyddyd Gymhwysol</u>

Y cryfderau sydd angen parhau i'w datblygu yw:

1) crefftau ymhob cyfrwng perthnasol - serameg, gwydr, gwaith metel

   Strategaeth Ddatblygu - casglu cynlluniedig o grefftau cyfoes yn sgîl Cynllun Gweithredu'r Adran ar gyfer Crefftau

2) Serameg Cymreig – gwrthrychau sy'n datblygu ein nod i fod yn gasgliad ymchwil mor awdurdodol â phosibl
3) porslen cyfandirol - gwrthrychau sydd naill ai'n taflu goleuni ar feysydd eraill y casgliadau, yn enwedig porslen Cymreig, neu'n mynd i'r afael â meysydd o wendid o fewn y casgliad hwn (e.e ffigurau, porslen Ffrengig)
4) serameg a gwydr sy'n gysylltiedig â Chymru - gwrthrychau o deilyngdod dogfennol ac/neu esthetig arbennig
5) darnau celf arian ôl-ganoloesol: enghreifftiau pwysig, yn enwedig (ond nid o anghenraid) yn gysylltiedig â Chymru

Strategaeth Ddatblygu - byddwn yn cynnal cysylltiadau â delwyr ac arwerthwyr arbenigol a gweithio'n fwy rhagweithiol gyda pherchnogion, a byddwn yn ceisio datblygu'r casgliad trwy fenthyciadau a chymynroddion, wrth barhau i brynu pryd bynnag y bo'n bosibl.

Mae celfyddyd gymhwysol Cymru (yn arbennig serameg, crochenwaith Japaneaidd, crefftau cyfoes) wedi'u cynrychioli'n dda yn gyffredinol yn ein gwaith casglu. Dylai gwaith casglu yn y dyfodol ganolbwyntio ar y gwrthrychau hanesyddol pwysicaf ac ar y gwaith crefftau gorau a gynhyrchir yng Nghymru neu gan wneuthurwyr o Gymru.

Mae awch pobl Cymru am gelfyddyd gymhwysol wedi'i gynrychioli'n dda ar y cyfan, er i ni fethu â chaffael gweithiau pwysig sy'n anodd ei storio neu eu harddangos, dylai'r darnau celf serameg, arian, celfi ac ati o'r math hwn barhau i fod yn faes â blaenoriaeth.

Wrth gasglu yn y gorffennol, rydym wedi canolbwyntio ar gynnwys gwrthrychau o safbwynt dylunio yn hytrach na'u swyddogaeth neu eu harwyddocâd cymdeithasol. Yn hytrach na newid y pwyslais hwn, dylem ei arddel fel ein hegwyddor arweiniol a cheisio datblygu'r casgliadau er mwyn adrodd y stori hon mewn modd mwy cyflawn gan gadw safonau uchel.

Erys gwendidau mawr i fynd i'r afael â hwy

a) dylunio a chelfyddyd gymhwysol ym mhob cyfrwng,
   Celfyddyd Brydeinig a rhyngwladol, ar ôl 1850; mae cyfleoedd arwyddocaol yn cynnwys casglu darnau crefft/serameg artistiaid o Ewrop, yn enwedig Ffrainc, fel gwrthbwynt i gasgliad Davies, gwydr Marinot, ac ati; hefyd casglu dyluniadau ar bapur (gan ategu cynnwys presennol o'r math hwn) Mae celfi bob amser wedi chwarae rôl ganolog o ran dylunio a mynegiant lleoedd domestig a mannau eraill, a phan ydynt o statws uchel, yn aml wedi'u dylunio i gyd-fynd â nid yn unig y bensaernïaeth, ond hefyd gyda gweithiau celf a fwriadwyd ar gyfer yr un lleoedd. O ran penseiri a dylunwyr bu celfi yn un o'r prif ddulliau ar gyfer arbrofi ac arloesi, sef agwedd ar y casgliad nad yw Sain Ffagan yn mynd i'r afael â hi. Caiff y potensial sydd gan gelfi i gyfoethogi arddangosfeydd celfyddyd ei gyfleu gan gelfi Williams Wynn a gynlluniwyd gan Adam sy'n ychwanegu dyfnder i'r dehongliad o ddarnau celf arian a phaentiadau o'r un ffynhonnell. Bydd datblygu ein casgliad bach ond pwysig o gelfi a ddogfennwyd yn cyfoethogi meysydd eraill ein harddangosiadau yn yr un modd.

   Nid oes gennym y capasiti i gasglu tecstilau dodrefnu ychwaith. Nid yn unig yr oeddynt yn fawr eu bri yn hanesyddol, ond hefyd roeddent yn gyfrwng pwysig ar gyfer dylunio 2 ddimensiwn; hefyd byddai llawer o'n casgliadau, p'un ai'n lluniau, cerflunwaith neu gelfyddyd gymhwysol wedi cyd-fynd â thecstilau o fathau amrywiol yn eu cyd-destunau gwreiddiol. Mae'r gwaith o gasglu tecstilau a gwisgoedd yn Sain Ffagan wedi pwysleisio cyd-destun cymdeithasol yn hytrach na dylunio, sydd felly yn golygu bod ein casgliadau yn brin yn y maes hwn.

   Strategaeth Ddatblygu - mae gwaith casglu ym maes Celfyddyd Fodern a Chyfoes (ar ôl 1900) yn gysylltiedig â'r fframwaith polisi a sefydlwyd gydag ymddiriedolaeth

Derek Williams, ac fe'i cyfarwyddir gan Gynllun Gweithredu'r Adran Gelf ar gyfer celfyddyd a dylunio cymhwysol ar ôl 1850. Gweithio'n rhagweithiol ar gyfer rhoddion a benthyciadau.

b) dylunio diwydiannol. Er bod Adran Ddiwydiant Sain Ffagan yn casglu enghreifftiau o ddylunio diwydiannol o'r 150 mlynedd ddiwethaf i ryw raddau, rydym yn ceisio datblygu cryfderau presennol y casgliadau drwy fynd i'r afael â'n gwendidau ar ôl tua 1850;

(i) adlewyrchu datblygiad dylunio fel disgyblaeth annibynnol;
(ii) adlewyrchu globaleiddiad diwylliant dylunio;
(iii) ysgogi a chefnogi'r gwaith o ddylunio ac astudio dylunio yng Nghymru.

Oherwydd cyfyngiadau o ran arian a lle, rydym yn ceisio casglu:

(i) gwrthrychau o bwysigrwydd esthetig sy'n egluro hanes dylunio, e.e. dyluniadau neu wrthrychau sy'n cynrychioli dylunydd, arddull, cyfnod neu dechnoleg yn arbennig o dda;
yn bennaf gwrthrychau a wnaed ar gyfer cyd-destunau domestig, cymdeithasol, seremonïol neu gyd-destunau tebyg ac sy'n egluro datblygiadau mewn arferion cymdeithasol ac arferion eraill, e.e arferion sy'n gysylltiedig â bwyta, yfed, goleuo, cysur a hwylustod domestig arddangos, hamdden, cyfathrebu, prynwriaeth;
gwrthrychau a deunydd arall sy'n egluro'r broses ddylunio, e.e. rôl y dyluniwr (dyluniadau, modelau, ffynonellau ysbrydoliaeth, ac ati) neu'r broses o ddatblygu a defnyddio technolegau a deunyddiau newydd (nwyddau trydanol, plastigau a deunydd a ailgylchwyd, ac ati);
gwrthrychau a deunyddiau sy'n egluro materion sy'n ymwneud â dylunio e.e. cystadleuaeth a dynwarediad, prosesau masnachol (marchnata, adwerthu, hysbysebu, ac ati).

Strategaeth Ddatblygu - cyfarwyddir gwaith casglu gan Gynllun Gweithredu'r Adran ar gyfer celf a dylunio cymhwysol ar ôl 1850. Gweithio'n rhagweithiol gyda chydweithwyr yn yr Adran Ddiwydiant ac yn Sain Ffagan

c) Celfyddyd gymhwysol gyfandirol ar wahân i borslen, yn enwedig crochenwaith o'r 16 eg ganrif hyd heddiw; pwyslais ar ansawdd uchel a gwerth addysgol yn hytrach na nifer

Strategaeth Ddatblygu - Prynu cynlluniedig fel y caniateir gan adnoddau. Gweithio'n rhagweithiol ar gyfer rhoddion a benthyciadau.

ch) yn amodol ar strategaeth a gytunir, celfyddyd a dylunio cymhwysol diwylliannau y tu hwnt i Ewrop; oherwydd casgliadau presennol o ddeunydd o ddwyrain a chanol Asia, mae'r rhain yn feysydd amlwg i'w datblygu (h.y. newid o GAEEDIG neu ODDEFOL i WEITHREDOL)

Casgliadau Gweithredol

<u>Celfyddyd Gain</u>

- Paentiadau olew, dyfrlliw, lluniadau a cherflunwaith o bob cyfnod gan artistiaid o Gymru, a delweddau o bobl Cymru a lleoedd yng Nghymru. GWEITHREDOL

- Paentiadau, dyfrlliwiau, lluniadau a cherflunwaith o bob cyfnod o werth esthetig ac addysgol uchel, waeth beth yw ei darddiad GWEITHREDOL.
- Gweithiau ym mhob cyfrwng celfyddyd gain sy'n adlewyrchu effaith Cymru, ei thirwedd, ei hanes a'i diwylliant ar artistiaid gweledol o'r cyfnod ôl-ganoloesol hyd heddiw. GWEITHREDOL.
- Gweithiau sy'n adlewyrchu hanes noddi a chasglu celfyddyd yng Nghymru. GWEITHREDOL.
- Portreadau o ffigurau o Gymru, lle maent hefyd o deilyngdod esthetig. GWEITHREDOL.
- Celfyddyd diwylliannau o'r tu hwnt i Ewrop, yn enwedig o'r gorffennol diweddar a'r presennol. Gan fod y maes yn helaeth, mae casglu yn debygol o ddigwydd o ganlyniad i bartneriaethau creadigol, megis arddangosfeydd. Caffaelwyd gwaith o gelfyddyd gynfrodorol Awstraliaidd drwy rodd yn 2004. GWEITHREDOL

Celfyddyd Gymhwysol

Mae casgliadau presennol wedi'u categoreiddio yn ôl deunydd yn hytrach na dyddiad. Yn gyffredinol, byddwn yn casglu'n weithredol mewn sawl categori (ac yn achlysurol y tu hwnt i'r categorïau hyn) am y cyfnod ar ôl tua 1850.

- Serameg o Gymru: GWEITHREDOL tua 3,000 o eitemau: blaenoriaeth barhaus, un o'n nodweddion unigryw i ddenu ymwelwyr, y casgliad gorau o'i fath yn y byd; nid ydym bellach yn casglu ar raddfa fawr ond mae'n rhaid i ni ymchwilio'n weithredol i gyfleoedd i ddatblygu'r maes hwn, yn ogystal â gallu caffael gwrthrychau ac/neu gasgliadau o ddiddordeb arbennig wrth i gyfleoedd godi.
- Porslen o Loegr: GWEITHREDOL: tua 1,900 o eitemau: un o'r prif gasgliadau cyfeirio ym Mhrydain; Byddwn hefyd yn parhau i gasglu yn ODDEFOL, ond ar raddfa gyfyngedig, mae angen ei ddatblygu'n WEITHREDOL er mwyn gosod porslen o Gymru mewn cyd-destun, i adlewyrchu ymchwil newydd, ac i lenwi'r ychydig fylchau pwysig (megis 'dylunio' yr 20^{fed}ganrif).
- Crochenwaith o Loegr: GWEITHREDOL: tua 1,700 o eitemau: Casgliad cynrychioliadol o bwys, gyda meysydd o wendid y dylid mynd i'r afael â hwy, e.e. 19^{eg} ganrif, teiliau, crochenwaith Wedgwood cynnar o ansawdd uchel, crochenwaith 'celfyddydol' o'r 19eg ganrif hwyr/ 20 fed ganrif gynnar.
- Porslen Cyfandirol: GWEITHREDOL: tua 2,200 o eitemau: casgliad mawr rydym yn adnabyddus o'i oherwydd; mae angen ei ddatblygu yn weithredol ar raddfa gyfyngedig, i osod porslen o Gymru mewn cyd-destun, i wella cydbwysedd y casgliad (e.e. ffigyrau) ac i adrodd stori dylunio ar ôl tua 1850.
- Crochenwaith cyfandirol: GWEITHREDOL: tua 100 o eitemau: rhai gwrthrychau pwysig ond maes gwan yn gyffredinol. Mae angen ei ddatblygu'n strategol i gynrychioli'r prif fathau dylanwadol, i osod cyd-destun stori serameg o Gymru a Lloegr a phorslen cyfandirol, i adrodd stori dylunio ar ôl tua 1850. Rhaid gosod pwyslais ar ansawdd yn hytrach na nifer. Mae'n ddymunol i ddatblygu'r casgliad artistiaid cyfandirol a serameg crefft diwedd y 19eg ganrif a dechrau'r 20fed ganrif, fel gwrthbwynt i gasgliad Davies, gwydr Marinot ac ati.
- Arian: GWEITHREDOL: tua 550 o wrthrychau: casgliad pwysig iawn; yn nhermau hanesyddol, mae angen ei ddatblygu, yn bennaf pan fydd cyfleoedd yn codi i gaffael darnau ac/neu gasgliadau sy'n ymwneud â Chymru. Blaenoriaethau'r dyfodol o'r math hwn: gweddill casgliad Jackson, os byddant ar werth; castwyr o brif eitem Bodelwyddan (yn yr UDA ar hyn o bryd); darnau pwysig o blatiau

eglwysi Cymru, os byddant ar werth (e.e. cwpan aur y Trallwng). Mae casgliad GWEITHREDOL o arian 'dylunio' ôl-1850 ac arian crefft cyfoes yn flaenoriaethau.

- Gwydr: GWEITHREDOL: tua 400 o eitemau: casgliad gweddol fawr ar y cyfan, gan ddarparu trosolwg eang o'r gwydr o Brydain ac i ryw raddau Ewrop. Dylid manteisio ar gyfleoedd i gaffael gwrthrychau arwyddocaol, p'un a ydynt o arwyddocâd i Gymru ai peidio. Casglu GWEITHREDOL o wydr crefft cyfoes, gwydr 'dylunio' ôl-1850.
- Celfi: GODDEFOL ar hyn o bryd: 17 o eitemau: Dylai fod yn WEITHREDOL pan fo adnoddau (lle storio ac arddangos) yn caniatáu. Dylai'r blaenoriaethau fod fel a ganlyn (a) celfi pwysig a ddogfennwyd, yn enwedig o darddiad Cymreig, sydd yn arwyddocaol o ran hanes dylunio; (c) celfi crefft.

Casgliadau Goddefol a Chaeedig

Nid ystyrir y canlynol fel blaenoriaethau i'w datblygu: Celfyddyd Gain

- printiadau topograffig a phortreadau o Gymru; labeli perchenogaeth llyfrau; printiadau gwisgoedd.
- Mae'r rhain o werth ymchwil ac arddangos achlysurol, ond y Llyfrgell Genedlaethol yw'r prif sefydliad sy'n casglu yn y meysydd hyn.
- printiadau reprograffeg o'r 19^{eg}ganrif

Celfyddyd Gymhwysol

- Serameg dwyrain Asia: GODDEFOL: tua 450 o eitemau: casgliad gweddol gwan, y mae angen ei ddatblygu fel adnodd sy'n gosod cyd-destun ar gyfer y casgliadau serameg eraill. Gellir cyflawni hyn yn rhannol drwy fenthyciadau i'w harddangos, ond dylid manteisio ar gyfleoedd i gaffael gwrthrychau perthnasol.
- Eifori: CAEEDIG: 90 o wrthrychau
- Jâd: CAEEDIG: 65 o wrthrychau
- Crochenwaith Japaneaidd: GODDEFOL: Tua 250 o wrthrychau: dylid cyfyngu caffaeliadau i ddarnau dogfennol pwysig, a lle bo'n briodol dylem gyfeirio at Amgueddfa Pont-y-pŵl.
- Casgliadau Japaneaidd (casgliadau Leach a Hughes): CAEEDIG: 74 o wrthrychau
- Casgliad gweithdy Bonnor: CAEEDIG [byddwn yn casglu gwrthrychau gan Bonnor ar sail ODDEFOL]
- Gemwaith: GODDEFOL: casgliad bach o emwaith ôl 1900 amrywiol y gellid ei ddatblygu'n WEITHREDOL.

2.3 BIOAMRYWIAETH A BYWYDEG GYFUNDREFNOL

Cyd-destun

Mae'r ddogfen strategaeth "*Earthscape" Strategaeth ar gyfer y Gwyddorau Naturiol mewn Cyd-destun Amgueddfa* yn amlinellu rolau a nodau'r Adran Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys sawl cyfeiriad at rolau casgliadau cyfundrefnol a'u swyddogaeth graidd fel y prif offeryn ar gyfer ymchwil cyfundrefnol a rhestr eiddo bioamrywiaeth. O ran casgliadau, mae'r ddogfen hon yn cydnabod rôl ganolog casgliadau fel

1) cofnod 4 dimensiwn hirdymor o fioamrywiaeth
2) offeryn ar gyfer ymchwil bioamrywiaeth a chyfundrefneg
3) ffynhonnell deunydd addysgol

Nid yw casgliadau cyfundrefnol yn offeryn addysgol a gedwir ar gyfer eu harddangos yn gyhoeddus yw'r casgliadau yn bennaf. Y rhain yw'r unig gofnod ffisegol o'n hetifeddiaeth bioamrywiaeth, o'n cynnydd o ran deall y byd naturiol, ac offeryn cyfoes ar gyfer darganfyddiadau pellach.

Mae arbenigedd y staff curadol yn gysylltiedig â'r casgliadau i'r fath raddau fel bod y polisi caffaeliadau yn gysylltiedig â'r polisi staffio. Dros y deng mlynedd ddiwethaf bu dadl genedlaethol a rhyngwladol o ran y ddarpariaeth o arbenigedd cyfundrefneg a rôl casgliadau biolegol wrth fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan Uwchgynhadledd y Ddaear a'r Rhwystr Tacsonomeg Byd-eang. O ganlyniad, mae'r strategaeth gaffaeliadau hon yn ystyried materion fel ceisio cydnabod anghenion lleol a rhyngwladol fel ei gilydd o gasgliadau ac arbenigedd tacsonomig. Am y rheswm hwn hefyd, mae'n amhosibl i ni wahaniaethu rhwng meysydd casgliadau heblaw yn gyffredinol, a theimlwn mai dyma'r ffordd ymlaen. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi, a bydd angen rhoi blaenoriaeth i ymateb i gyfleoedd a ysgogir o'r tu allan os ydynt yn berthnasol.

Rydym yn cydnabod rhyngberthnasau casgliadau ac arbenigedd yn y DU. O ganlyniad, byddwn yn trafod caffael a gwaredu casgliadau gyda rhanddeiliaid pan fo'n briodol.

Cryfderau'r Casgliadau

Mae cryfderau presennol casgliadau yn darparu llawer o'r fframwaith y sefydlwyd y strategaeth hon o'i fewn. Fodd bynnag, byddai datblygiadau newydd mewn cyfundrefneg, yn arbennig yn y defnydd o DNA yn addasu'r hyn y byddwn yn casglu a sut y byddwn yn gwneud hynny. Ystod genedlaethol a rhyngwladol fawr y casgliadau yw ein cryfderau, a chaiff y cryfderau hyn eu cynnal yn gyffredinol. Byddwn ond yn datblygu y tu hwnt i'r cryfderau hyn ar ôl trafodaeth gyda rhanddeiliaid allanol a sicrhau cyfiawnhad.

<u>Molysgiaid</u>

- Molysgiaid y Byd yng nghasgliad Melvill-Tomlin a'i lyfrgell gysylltiedig

- Molysgiaid Prydain/Cymru gan gynnwys ffawna Prydain bron yn llwyr
- Molysgiaid nad ydynt yn Folysgiaid Morwrol, yn enwedig Affricanaidd a Phalearctig
- Molysgiaid tir Palearctig
- Molysgiaid deufalf o Gefnfor yr India a lleoliadau byd-eang
- Seffalopodau yng nghasgliadau Hoyle (Cyfarwyddwr 1af yr Amgueddfa), a enwyd yn ei bapurau pwysig ar y pwnc
- Molysgiaid Cwaternaidd Byd-eang

Pryfed
- Casgliad Prydeinig/Cymreig helaeth a chynhwysfawr
- Chwilod (cymynroddion Tomlin a Gardner)
- Diptera (amaethyddol, cydgymunedau organebau lletyol a chynnwys palearctig
- Hemiptera (amaethyddol, cydgymunedau organebau lletyol a chynnwys palearctig
- Lepidoptera (Pili-palaod Prydeinig byd-eang, gwyfynod Prydeinig)
- Casgliad tramor cynhwysfawr o ran ei gynnwys o deuluoedd pryfed

Anifeiliaid di-asgwrn-cefn daearol eraill
- Corynnod Prydain a Chymru
- Cynrychiolir pob rhywogaeth o wrachod y Coed gan sbesimenau
- Gwiddon y pridd o Gymru a safleoedd eraill

Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn Morwrol (heblaw am Folysgiaid)
- Casgliadau helaeth o anifeiliaid di-asgwrn-cefn benthig o ddyfroedd Prydain, ac yn enwedig y Môr Celtaidd
- Casgliadau helaeth o Bolicetiaid o leoliadau ym Mhrydain a Byd-eang
- Casgliad o abwydod parasitig ar bysgod morwrol

Fertebratiaid
- Sbesimenau (arddangos) mowntiedig o'r rhan fwyaf o famaliaid Prydain a nifer o adar Prydain
- Sbesimenau cist o adar, wyau adar a mamaliaid
- Deunydd ysgerbydol cynhwysfawr

Planhigion Fasgwlaidd
- Casgliad mawr o blanhigion blodeuol, yn bennaf o Ewrop, yn cynnwys y casgliad mwyaf o blanhigion Cymreig sy'n bodoli, gyda chasgliad cysylltiedig o ffrwythau a hadau
- Casgliad mawr o redyn o gwmpas rhyngwladol
- casgliad bach o sleidiau meicrosgop gwydr yn dangos deunydd planhigol toredig yn bennaf

Cryptogamau
- Casgliadau bryoffytau mawr (yr ail fwyaf ym Mhrydain), gyda chyfeiriadau arbennig at Brydain, ond o gwmpas rhyngwladol
- Casgliad cennau helaeth, o Brydain yn bennaf, gyda chyfeiriadau arbennig at Gymru

Casgliad Coed

- Casgliad mawr o goed a phren o bob rhan o'r byd

Casgliad Economaidd

- Casgliad o ddeunydd planhigol o bwysigrwydd economaidd, yn cynnwys bwyd, tecstilau a deunydd fferyllol

Peilleg

- Casgliad mawr o samplau a sleidiau mowntiedig o samplau peillegol cwaternaidd
- Casgliad Hyde o samplau peillegol modern, a gafaelwyd o uned Asthma ac Alergedd Ysbyty Sili

Deunydd Botanegol Darluniadol

- Casgliad mawr o brintiadau a lluniadau o'r 18fed a'r 19eg ganrif yn bennaf, sy'n olrhain datblygiad darluniadau botanegol
- Casgliad mawr o dryloywderau o blanhigion a thirweddau
- Casgliad mawr o hen negatifau gwydr yn dangos planhigion, tirweddau, botanegwyr a diagramau o gyhoeddiadau
- Casgliad helaeth byd-eang o stampiau post a chardiau masnach ar themâu botanegol

Modelau Biolegol

- Casgliad unigryw o fodelau cwyr botanegol gywir o flodau, ffyngau a phlanhigion eraill.
- Modelau gwydr Blaschka o anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

Archifau Botanegol

- Llawysgrifau a gohebiaeth anghyhoeddedig yn ymwneud â botanegwyr a chasglwyr eraill o Gymru, a chasgliadau llysieufeydd a ddelir gan yr Adran

Llyfrgelloedd botanegol a sŵolegol

- Casgliad helaeth o lyfrau, cyfnodolion ac adargraffiadau, yn ymdrin â'r gwyddorau biolegol yn bennaf.
- Casgliad bach o lyfrau prin o'r 19eg ganrif a chynharach
- Casgliad o gopïau micro-lun o hen lyfrau a chyfnodolion na chedwir copïau papur ohonynt yn y llyfrgell; hefyd llysieufeydd clasurol

Gwendidau'r Casgliad

Mae'r prif wendidau'n ymwneud â staffio ac felly'r defnydd y gallwn ei wneud o'n casgliadau yn hytrach na'r casgliadau eu hunain. Gydag arbenigedd tacsonomeg ehangach, gallwn roi mwy o werth i'r casgliadau a ddelir gennym ar hyn o bryd. Mae'r lefel arbenigedd byd-eang a'r rhwystr tacsonomeg byd-eang yn rhoi cwmpas anferth i dacsonomeg yn seiliedig ar gasgliadau, a cheir nifer o ddewisiadau ar gyfer datblygu. Dim ond ar ôl dadansoddi'r angen allanol y dylid gwneud unrhyw benderfyniad i allgyfeirio ein harbenigedd a'n casgliadau.
Ym maes ein polisi casglu craidd, a fydd yn ystorfa ar gyfer deunydd sy'n ymwneud â bioamrywiaeth Cymru, mae'r Strategaeth Wyddoniaeth (2005, ac yn seiliedig ar

ymatebion rhanddeiliaid) yn cydnabod nifer o feysydd o flaenoriaeth lle gellid datblygu arbenigedd a chasgliadau.
Cramenogion morwrol
Arfilod morwrol
Algâu
Ffyngai
Anifeiliaid di-asgwrn-cefn y pridd
Yn ogystal â'r rhain, ceir meysydd eraill lle rydym yn dal casgliadau sy'n ddigon cryf i'n galluogi i gyfrannu at y rhestr bioamrywiaeth ranbarthol ac ymchwil tacsonomeg
Micro-lepidoptera
Corynnod
Rhedyn
Cramenogion y ddaear, miltroediaid a chantroediaid
macro anifeiliaid di-asgwrn-cefn dŵr croyw

O ran bioamrywiaeth Cymru, mae ein prif wendid yn codi o ddiffyg ymwybyddiaeth o'n rôl fel yr ystorfa genedlaethol a cholli deunydd sy'n dilyn sy'n deillio o arolygon ac astudiaethau gan sefydliadau ac unigolion y byddwn yn eu hystyried fel rhanddeiliaid.

Cyfleoedd

Mae ehangu ymchwil bioamrywiaeth a'r rhestr eiddo yn sgîl Uwchgynhadledd y Ddaear wedi dod â chasgliadau cyfundrefnol a chyfundrefneg i'r amlwg. Arweiniodd hyn at gynnydd mewn astudiaethau ac arolygon sy'n perthyn i gadwraeth bioamrywiaeth ac yn y defnydd rheolaidd o Asesiadau Effaith Amgylcheddol, y mae'r ddau ohonynt yn arwain at greu casgliadau. Mae'r ehangiad anferth hwn yn arwain at well posibilrwydd o greu rhestr eiddo bioamrywiaeth ddiffiniol, a ddylid ei hategu gan gasgliadau. Amgueddfeydd yw'r unig storfeydd ar gyfer deunydd o'r fath ac felly mae amgueddfeydd mewn safle allweddol ar gyfer cyfrannu at yr agendâu amgylcheddol cyfoes hyn.
Drwy gyfraniadau at yr agenda bioamrywiaeth byd-eang rydym yn gallu gosod yr amgueddfa mewn cyd-destun rhyngwladol a defnyddio ein casgliadau a'n harbenigedd i hyrwyddo'r amgueddfa a Chymru.
Mae dyfodiad cyfundrefneg folecwlar yn fan cychwyn i adolygiad o lawer o faes traddodiadol tacsonomeg ac yn caniatáu ystyried cydberthnasau a hunaniaeth yn fanylach. Bydd casglu samplau sy'n cynnwys DNA a gadwyd yn rhoi mwy o werth i'n casgliadau ac yn darparu deunyddiau ar gyfer ymchwil arloesol yn yr amgueddfa a thu hwnt.
Byddwn yn casglu'n briodol wrth i ni ddatblygu themâu neu storïau (e.e. newid yn yr hinsawdd trwy hanes) y byddwn yn dymuno'u harchwilio mewn arddangosfeydd neu raglenni deongliadol, ac wrth i ni ddatblygu ein cysyniadau ar gyfer creu Amgueddfa Hanes Naturiol Cymru.

Bygythiadau

Amlygwyd y prif fygythiad i gasgliadau yn yr adroddiadau a nodwyd yn y ddogfen Strategaeth Wyddoniaeth ac yn cynnwys yn bennaf ddifaterwch tuag at gasgliadau a thacsonomeg a diffyg ariannu yn y DU. Heb dderbyn gwerth casgliadau cyfundrefnol

ni fydd ysgogiad i greu na derbyn y casgliadau hynny sy'n cynrychioli bioamrywiaeth fodern.

Strategaethau adrannol (Cyffredinol)

Rhestr eiddo o fioamrywiaeth Cymru yn seiliedig ar sbesimenau.

Byddwn yn gweithredu fel storfa ar gyfer deunydd sy'n berthnasol i ffawna a fflora Cymru a bydd datblygu'r rôl hon yn bolisi cyffredinol ar gyfer pob adran. Caffaelir deunydd ar hyn o bryd drwy waith maes Amgueddfa Genedlaethol Cymru, neu gan roddwyr, heb fawr yn dod trwy brynu uniongyrchol. Mae angen hyrwyddo'r rôl yn sylweddol o hyd er mwyn cyflawni gwybodaeth a derbyniad eang. Bydd y casgliadau a'r data yma yn cefnogi'r canolfannau cofnodion lleol a Chanolfan Cofnodion Amgylchedd Morwrol Cymru

Samplu DNA
Mae ymchwil cyfundrefneg fodern yn dibynnu fwyfwy ar ddadansoddi dilyniannau DNA. Gan hynny, rhaid i'r polisi cyffredinol gynnwys datblygu casgliadau o sbesimenau addas a gadwyd neu feinweoedd at y defnydd hwn ym mhob maes casglu.

Sbesimenau ar gyfer arddangos a dysgu
Yn aml nid yw sbesimenau a gesglir, yn cynnwys llyfrau, fel deunydd neu ar gyfer ymchwil, yn addas ar gyfer eu harddangos. O ganlyniad, bydd bob amser yr angen posibl i gaffael sbesimenau a baratowyd yn arbennig, modelau, darluniau a llyfrau ar gyfer eu defnyddio mewn arddangosfeydd ac ar gyfer dysgu.

Gweithredu fel canolfan ar gyfer casgliadau gadawedig
Pan fo angen diogelu dyfodol casgliadau allanol drwy gaffael casgliadau sydd mewn perygl o'u gwaredu neu eu dinistrio, i'w cadw neu eu hailddosbarthu i sefydliadau eraill fel sy'n briodol.

Polisïau Adrannol (Is-adrannol)

<u>Molysgiaid</u>
Byddwn yn:

- Casglu deunydd yn y meysydd a'r rhanbarthau hynny sy'n berthnasol i ffawna Prydain
- Casglu deufalfiaid ar raddfa fyd-eang i atgyfnerthu'r canolfan ragoriaeth yn y maes hwn
- Casglu Molysgiaid y tir sy'n berthnasol i feysydd ymchwil bioamrywiaeth lle gellir gwneud y defnydd gorau o gryfderau ac arbenigedd presennol. Am y deng mlynedd nesaf bydd hyn yn canolbwyntio ar folysgiaid tir Affrica a theuluoedd Streptaxidae a Helicidae yn fyd-eang
- Caffael sbesimenau i gynnal statws casgliadau Melvill-Tomlin (yn enwedig rhywogaethau sydd ar goll neu a ddisgrifiwyd yn ddiweddar) pan fo'r casgliad hwnnw yn hanesyddol gryf naill ai'n rhanbarthol neu'n dacsonomegol, naill ai drwy gyfnewid neu brynu

- Caffael sbesimenau archeolegol, Pleistosen a Chwaternaidd sy'n berthnasol i folysgiaid Ewropeaidd neu i weithgareddau ymchwil rhyngddisgyblaethol
- Caffael deunyddiau archifol sy'n berthnasol i astudio Molysgiaid i ychwanegu at y deunydd a ddelir o gasgliadau Hoyle a Melvill-Tomlin a gwrthrychau eraill sy'n berthnasol i hanes gwyddoniaeth ac astudio molysgiaid yng Nghymru/Prydain.

Pryfed

Byddwn yn:

- Casglu pryfed o Brydain, yn enwedig o Gymru, er mwyn creu adnodd cyfeirio a chanolfan cofnodion biolegol ar gyfer Cymru
- Casglu sbesimenau o'r rhanbarth palearctig, yn enwedig Hemiptera, Diptera a Choleoptera er mwyn deall ffawna Prydain yn well
- Caffael sbesimenau o fannau eraill yn nhrofannau ac isdrofannau'r hen fynd sydd o berthnasedd uniongyrchol i brosiectau ymchwil cytunedig
- Caffael sbesimenau pan fo'r casgliadau yn gryf naill ai'n rhanbarthol neu'n dacsonomegol naill ai drwy gyfnewid neu brynu
- Caffael sbesimenau o ansawdd arddangos ar gyfer arddangosfeydd
- Caffael sbesimenau fel adnodd ar gyfer dysgu, arddangosiadau a darlithoedd
- Ceisio darparu'r adnoddau i gasglu ffawna dŵr croyw Cymru sydd wedi'u tangynrychioli'n llwyr yn y casgliad ar hyn o bryd.

Anifeiliaid Di-Asgwrn-Cefn Daearol eraill

Byddwn yn:

- Caffael sbesimenau er mwyn ateb ymholiadau gan y cyhoedd
- caffael sbesimenau gwiddon y pridd o ganlyniad i weithgareddau cydymaith ymchwil
- Ceisio darparu'r adnoddau i gasglu ffawna amldroedion ac arachnid Cymru nad yw wedi'u cynrychioli'n llawn yn y casgliad ar hyn o bryd
- Caffael sbesimenau o ansawdd arddangos ar gyfer arddangosiadau
- Caffael sbesimenau fel adnodd ar gyfer dysgu, arddangosiadau a darlithoedd

Anifeiliaid Di-Asgwrn-Cefn Morwrol (ac eithrio Molysgiaid)

Byddwn yn:

- Casglu'r ffawna rhanbarthol ym mhob grŵp benthig drwy waith maes, cymynroddion dethol a drwy ddefnyddio contractau allanol ar gyfer enwi
- Gwneud casgliadau o organebau benthig o bob rhan o'r byd pan fo'n berthnasol i raglenni ymchwil cyfredol mewn ecoleg cymunedau benthig gymharol
- Casglu mwydod polycetaidd sy'n berthnasol i ffawna Prydain
- Casglu mwydod polycetaidd yn rhyngwladol i atgyfnerthu maes y pwnc fel canolfan ragoriaeth
- Fel y bydd adnoddau yn caniatáu, casglu Cramenogion morwrol y tu hwnt i'r Môr Celtaidd
- Fel y bydd adnoddau yn caniatáu, casglu epibenthos morwrol y tu hwnt i'r Môr Celtaidd.

Fertebratiaid

Byddwn yn:

- Caffael sbesimenau o rywogaethau prin neu rywogaethau nad ydynt yn y casgliad, yn dibynnu ar farwolaethau damweiniol (e.e. marwolaethau ar y ffordd) neu atafaeliadau gan yr Adran Tollau.

Planhigion Fasgwlaidd

Byddwn yn:

- Casglu sbesimenau a fydd yn gwella'r ymdriniaeth gynhwysfawr o blanhigion fasgwlaidd gwyllt ac estron yn Ynysoedd Prydain. Am yr 20 mlynedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar ddosbarthiadau critigol a mewnrywogaethol
- Casglu sbesimenau i wella'r ymdriniaeth gynhwysfawr o blanhigion fasgwlaidd yn Ewrop ac ardaloedd eraill sy'n berthnasol i ddatblygiad fflora o Gymru
- Casglu sbesimenau i wella'r ymdriniaeth gynhwysfawr o blanhigion a dyfir yng Nghymru
- Casglu sbesimenau i gefnogi diddordebau ymchwil cyfredol
- Diogelu dyfodol llysieufeydd cenedlaethol a phreifat drwy gaffael casgliadau sydd mewn perygl o gael eu gwaredu neu eu dinistrio, a'u cadw neu eu hailddosbarthu i sefydliadau eraill fel y bo'n briodol.

Cryptogamau

Byddwn yn:

- Casglu sbesimenau bryoffyt i wella ein hymdriniaeth gynhwysfawr o rywogaethau Ewropeaidd ac ymdriniaeth ddaearyddol gynrychioliadol o Brydain Fawr, a chasglu sbesimenau cymharol o ardaloedd o'r byd sy'n perthyn yn fotanegol i Gymru
- Casglu cennau i wella'r ymdriniaeth gynhwysfawr o rywogaethau gogledd a gorllewin Ewrop, ymdriniaeth ddaearyddol gynrychioliadol o Gymru, a chasglu sbesimenau cymharol o ardaloedd o'r byd sy'n perthyn yn fotanegol i Gymru
- Casglu ffyngau i wella'n ymdriniaeth gynrychioliadol o Gymru, a chasglu sbesimenau cymharol o ardaloedd o'r byd sy'n perthyn yn fotanegol i Gymru
- Casglu sbesimenau diatom i ddatblygu'r casgliadau diatom, gan wella ein hymdriniaeth o rywogaethau Ewropeaidd ac ymdriniaeth ddaearyddol gynrychioliadol o Brydain Fawr, a chasglu sbesimenau cymharol o ardaloedd o'r byd sy'n perthyn yn fotanegol i Gymru
- Caffael sbesimenau cynrychioliadol cymharol o ardaloedd eraill o'r byd i ategu diddordebau ymchwil cyfredol, ac oherwydd y cydnabyddir bod nifer o genera a rhywogaethau yn amlgenhedlig
- Diogelu dyfodol llysieufeydd cenedlaethol a phreifat drwy gaffael casgliadau sydd mewn perygl o gael eu gwaredu neu eu dinistrio, a'u cadw neu eu hailddosbarthu i sefydliadau eraill fel y bo'n briodol.

Coed

Byddwn yn:

- Casglu sbesimenau o doriadau pren a choed i wella'r ymdriniaeth gynhwysfawr o'r pren a dyfir neu a ddefnyddir yng Nghymru.

Deunydd Economaidd

Byddwn yn:

- Casglu sbesimenau o doriadau pren a choed i wella'r ymdriniaeth gynhwysfawr o'r pren a dyfir neu a ddefnyddir yng Nghymru.

Peilleg

Byddwn yn:

- Parhau i gasglu sbesimenau peillegol Cwaternaidd, yn arbennig o Gymru a rhanbarthau cyfagos, fel rhan o'r gweithgareddau ymchwil y cytunir arnynt

Llyfrgelloedd botanegol a sŵolegol

Byddwn yn:

- Prynu neu gaffael fel arall lyfrau, cyfnodolion ac adargraffiadau sy'n perthyn i'r rhaglen ymchwil
- Prynu neu gaffael fel arall y llyfrau, cyfnodolion ac adargraffiadau sydd eu hangen i ateb ymholiadau gan y cyhoedd
- Prynu neu gaffael fel arall y llyfrau, cyfnodolion ac adargraffiadau sydd eu hangen i ddatblygu gweithgareddau allgyrraedd

Darluniadol (Botanegol)

Byddwn yn:

- Casglu llyfrau, printiadau a lluniau cain i wella'r ymdriniaeth gynrychioliadol o ddarluniau botanegol, gan adlewyrchu'r prif ddatblygiadau hanesyddol yn nhechnegau darlunio botanegol
- Caffael darluniau botanegol gan yr artistiaid cyfoes gorau yn y maes
- Casglu deunydd ffotograffig ar gyfer ymchwil, arddangos, dysgu a chyhoeddiadau, cyhyd â'u bod yn dangos delweddau clir a'u bod wedi'u dogfennu o ran cynnwys y delweddau (o ran hynny gellir cael y wybodaeth hon drwy ymchwil)
- Casglu stampiau postio cynrychioliadol ar themâu botanegol o bob rhan o'r byd y gellir eu defnyddio fel rhan o raglen allgyrraedd.

Modelau Botanegol

Byddwn yn:

- Casglu neu'n gwneud modelau fel adnodd ar gyfer arddangos a dysgu.

Archifau

Byddwn yn:

- Caffael llyfrau nodiadau, ffotograffau, llythyron, llawysgrifau a deunyddiau eraill sy'n perthyn i fotanegwyr o Gymru a'r archwiliad botanegol o Gymru, ac yn perthyn i gasgliadau a gaffaelwyd gan yr Adran
- Caffael llyfrau nodiadau, ffotograffau, llythyron, llawysgrifau a deunyddiau eraill sy'n perthyn i gasgliadau Hanes Naturiol yng Nghymru, ac yn perthyn i gasgliadau a gaffaelwyd.

Sut rydym yn casglu

Mae'r systemau a ddefnyddir i gaffael sbesimenau yn berthnasol i'r polisi caffael. Ceir y prif lwybrau canlynol

- Casglu gan staff trwy arolygon a phrosiectau ymchwil
- Rhoddion deunydd gan arolygon a phrosiectau allanol
- Prynu casgliadau pan fyddant ar werth
- Pryniadau a gomisiynwyd

Y ffynhonnell fwyaf o lawer ar hyn o bryd yw trwy brosiectau staff ac yn ail trwy brynu casgliadau presennol. Dylai rhoddion deunydd fod yn brif lwybr, yn arbennig o ran ffawna a fflora Cymru, ond ar hyn o bryd y mae'n is na'r hyn y byddai rhywun yn dymuno.

2.4 DAEAREG

Cyflwyniad

Yn naturiol mae *Datganiad Gweledigaeth Amgueddfa Cymru* (Rhagfyr 2005) yn cyfeirio at y casgliadau a'u defnydd mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu cyffredinol. Er enghraifft,

> "... defnyddio ein casgliadau gwyddoniaeth naturiol i helpu'n hymwelwyr i ddeall yr amgylchedd."
>
> "... ychwanegu at y casgliadau mewn ffyrdd sy'n berthnasol i anghenion ..... heddiw a'r dyfodol."
>
> "... darparu safonau gofal a gymeradwyir yn rhyngwladol i'n holl gasgliadau."
>
> "... Cynyddu ein mynediad corfforol a deallusol i gasgliadau cyfeirio'r Amgueddfa"
>
> "... sicrhau bod ein rhaglenni ymchwil yn cyflawni gofynion ein hymwelwyr a'n defnyddwyr."

Yn unigol ac ar y cyd fel ei gilydd, mae'r nodau a'r amcanion hyn yn ffurfio'r brif sail ar gyfer Strategaethau Casgliadau o fewn yr Adran Ddaeareg.

Mae'r ddogfen Wyddoniaeth Naturiol a luniwyd yn rhan o'r Datganiad Gweledigaeth *Earthscape – A Strategy for the Life and Earth Sciences* yr un mor bwysig.

Ac yn ogystal, mae'r Adran Ddaeareg yn mynd i'r afael â'r fenter bresennol i ddatblygu ffocws rhyngwladol ar gyfer Gwyddorau'r Ddaear o dan nawdd UNESCO ac Undeb Ryngwladol y Gwyddorau Daearegol o'r enw *Planet Earth - Earth Sciences for Society 2005-2007*. Mae'r ddogfen hon mor bwysig i Wyddorau'r Ddaear ag yw *Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd* Rio de Janeiro ar gyfer Gwyddorau Biolegol. Mae'r ddogfen *Planet Earth* yn canolbwyntio ar y gydberthynas rhwng y ddynoliaeth a'r Ddaear wrth arddangos fod gan wyddonwyr y ddaear rôl allweddol i'w chwarae wrth greu dyfodol cytbwys cynaliadwy.

Paratowyd y strategaethau casgliadau a baratowyd yma o fewn fframwaith cyffredinol y dogfennau amrywiol hyn. Mae'r prif ffocws ar:

- Ddatblygu'r casgliadau trwy bolisi caffael a flaenoriaethwyd
- Casglu'n weithredol mewn meysydd o ddiddordeb.

Gosodwyd pwyslais yn ogystal ar sut y gellir rhoi gwerth ychwanegol i'r casgliadau, drwy sicrhau bod yr arbenigedd perthnasol ar gael i gynnal ymchwil. Cynigir gwell mynediad at y casgliadau drwy:

- Sicrhau bod data'r casgliad ar gael mor eang â phosibl
- Ymchwilio i'r casgliadau i roi gwerth ychwanegol iddynt

- Gwella mynediad cyhoeddus i'r casgliadau
- Rhoi mynediad agored i gasgliadau cyfeirio
- Cynyddu mynediad a hwyluswyd i gasgliadau craidd
- Cynyddu'r dehongliad o gynnwys a rôl y casgliadau

Ni yw'r brif storfa ar gyfer ffosiliau, creigiau a sbesimenau mwynol o Gymru, ac mae'r deunydd hwn yn ffurfio craidd ein rôl casglu. Mae'r prif ffocws ychwanegol ar ein casgliadau archifol/dogfennol. Mae hyn yn cydblethu'n dda â'r amgueddfeydd cenedlaethol eraill, ac yn rôl y dylid ei hatgyfnerthu drwy waith casglu pellach a hyrwyddo'r casgliadau. Cesglir deunydd rhyngwladol yn ogystal i osod esblygiad Cymru mewn cyd-destun byd-eang. Mae'n bwysig pwysleisio nad oes unrhyw sefydliadau eraill â churaduron daearegol yng Nghymru, na chasgliadau daearegol o arwyddocâd hanesyddol.

Cryfderau

Paleontoleg

Y brif storfa ar gyfer ffosiliau o Gymru; ategir y rhain gan gasgliadau ymchwil o rannau eraill o'r DU, ac o ffynonellau byd-eang. Felly mae gan y casgliad statws ac arwyddocâd rhyngwladol, ac yn un o'r prif gasgliadau paleontolegol yn y DU. Rydym yn un o brif ganolfannau'r DU ar gyfer ymchwil paleontolegol, yn enwedig ym maes tacsonomeg, ffylogenedd a phaleobioddaearyddiaeth, gyda phwyslais arbennig ar y cyfnod Paleosoig cynnar ar hyn o bryd.

- Anifeiliaid di-asgwrn-cefn y cyfnod Paleosoig cynnar, yn enwedig braciopodau, trilobitau, deufalfiaid, cwrelau
- Rhai anifeiliaid di-asgwrn-cefn Carbonifferaidd: braciopodau, trilobitau, deufalfiaid anforwrol
- Planhigion Silwraidd-Defonaidd
- Planhigion Carbonifferaidd (y Cystradau Glo)
- Amonitau Jwrasig
- Rhaglen ymchwil staff weithredol iawn sy'n gwella casgliadau ac yn annog cymheiriad i'n defnyddio fel ystorfa
- Dyddodiad nifer o gasgliadau gan gydweithwyr (yn enwedig deunydd math/cyfeirio).

Mwynyddiaeth

- Mwynyddiaeth Cymru yw cryfder ei Casgliad o Fwynau; mae rhaglenni ymchwil a phartneriaeth dros y ddeng mlynedd ddiwethaf wedi gwella'r deunydd a gedwir i fod yn gasgliad cynhwysfawr o fwynau Cymreig. Deunydd cyfeirio o bron pob safle mwyngloddio yng Nghymru.
- Mae aur Cymru a milerit Cymru (o safon ryngwladol) yn gryfderau eraill yn y casgliad mwynau; Fflworit Prydeinig a chasiterit Byd-eang, sy'n deillio yn bennaf o graidd casgliad R.J. King a gaffaelwyd yn 1983. Mae arwyddocâd (a gwerth sylweddol) i gasgliad bach o sbesimenau arian brodorol o gloddfeydd Kongsberg yn Norwy. Mae llawer o'r deunydd yn y categori hwn o ansawdd arddangos.
- Casgliad arwyddocaol o fwynau Prydeinig, yn cynnwys rhai sy'n deillio o gasgliadau treftadaeth, a chasgliad ymchwil o ddeunydd Swydd Gaerlŷr.

Petroleg

- Mae Casgliad Creigiau Cyfeirio Cymru, (yn cynnwys sbesimenau llaw a thoriadau petrolegol tenau) a gaffaelwyd yn bennaf trwy waith casglu maes yn ystod yr 20fed Ganrif, yn adnodd unigryw ar gyfer ymholiadau a chamau cyntaf ymchwil gwreiddiol ac ymchwil yn seiliedig ar gasgliadau.
- Casgliadau ymchwil petroleg Gymreig, sy'n deillio o draethodau Ph.D a phapurau a gyhoeddwyd.
- Casgliad Glo Cymru; casglwyd yn ystod yr 20fed Ganrif o lofeydd gweithredol
- Casgliad llechi Cymru. Mae'r samplau hyn yn amrywio o sbesimenau llaw i samplau mawr (rhai o ansawdd arddangos), i bowdwr creigiau, toriadau tenau a chraidd a graean tyllau turio.
- Mae'r casgliad tyllau turio bas o De Cymru, gyda logiau a mapiau cysylltiedig, yn adnodd ymchwil a pheirianneg gwerthfawr.

Archifau

Casgliad ymchwil arwyddocaol o ddogfennau a mapiau hanesyddol sy'n perthyn i ddatblygiad cynnar gwyddorau daearyddol yn y DU yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg cynnar. O statws ac arwyddocâd rhyngwladol. Mae hyn yn cael ei wella yn barhaus fel offeryn ymchwil ac ymgynghori, ac i wella ei natur gynhwysfawr.

- Gohebiaeth De la Beche - yn ymwneud â hanes gwyddor ddaearegol ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; mae arbenigwyr byd-eang yn troi at y casgliad hwn.
- Mapiau ac archif ddaearegol William Smith - un o'r casgliadau gorau yn y DU.
- Mapiau Arolwg Daearegol o Gymru o'r Bedwaredd ganrif ar Bymtheg a dechrau'r Ugeinfed Ganrif.
- Archif llyfrgell o destunau daearegol prin a hanesyddol.

Gwendidau

Paleontoleg

- Graptolitau
- Anifeiliaid di-asgwrn-cefn Paleosoig (e.e. pysgod ORS)
- Ymdriniaeth anghyson o'r agwedd leol (Cymreig), yn stratagraffigol a daearyddol fel ei gilydd.
- Anifeiliaid di-asgwrn-cefn Carbonifferaidd ar wahân i'r rhai a nodwyd uchod.
- Deunydd o safon arddangos ar gyfer rhai grwpiau.

Mwynyddiaeth

- Mwynau nas cynrychiolwyd o leoliadau o fathau Cymreig, (e.e. cymrit, bannisterit)
- Sbesimenau mwynau cymharol gwan o leoliadau byd-eang i gefnogi gwell dealltwriaeth o fwynau Cymru (e.e. brocit, bannisterit, pennantit).
- Cynrychiolaeth wael mewn rhai meysydd o fwynau cyfundrefnol, yn arbennig mathau newydd a ddisgrifiwyd yn yr ugain mlynedd ddiwethaf.
- Diffyg mwynau o safon arddangos o Gymru.
- Cynrychiolaeth wael o fwynau Cymru o chwareli gweithredol yng Nghymru. Gemfeini o ansawdd arddangos

Petroleg

- Rhywfaint o ddyblygu yn y casgliad o greigiau nad ydynt o Gymru ac nad ydynt y cael eu harddangos
- Creigiau mawr, o Gymru o ansawdd arddangos gwael
- Gwendidau o ran sbesimenau glo cyfeirio o ogledd ddwyrain Cymru a Fforest Ddena
- Casgliad o gerrig adeiladu anghyflawn ar gyfer Cymru

Cyfleoedd

Un o'r prif gyfleoedd rydym yn ei archwilio ar hyn o bryd yw defnyddio ein data i ymwneud yn fwy ag agweddau o Ddaeareg Gymhwysol (yn arbennig casgliadau creigiau/mwynau, mapiau, tyllau turio ac arbenigedd staff). Mae ein cyhoeddiadau diweddar ar Dirlithriadau a Daeareg Drefol yn amlygu'r potensial i gyrraedd cynulleidfa ehangach a chodi nawdd sylweddol. Hefyd rydym yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu Fforwm Cerrig Cymru, yn cynnwys cynlluniau i ddatblygu 'Llyfrgell Gerrig'. Mae cyfleoedd amlwg eraill yn cynnwys

Paleontoleg
- Partneriaethau gyda sefydliadau/unigolion eraill i wella cwmpas casgliadau ymchwil
- Caffael deunydd arddangos a dargedwyd o ffynonellau masnachol
- Manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau SAG sydd ar gael (yn enwedig ar gyfer deunydd o ansawdd arddangos)

Mwynyddiaeth
- Datblygu gwell cysylltiadau â chasglwyr mwynau preifat i gaffael casgliadau

Petroleg
- Er bod gennym gasgliad gweddol fach o gerrig adeiladu, mae hwn yn faes ag iddo alw allanol cynyddol am wybodaeth a samplau. Ychwanegwyd at y casgliad gan rywfaint o waith casglu, ond mae angen ymagwedd gyda gwell ffocws i sefydlu safle o awdurdod.
- Mae gennym gasgliad bach o wibfeini; defnyddir hwn ar gyfer dehongli ac arddangos yn bennaf. Byddai'r casgliad yn llawer mwy defnyddiol i gynulleidfa ehangach petai'n cael ei wella i fod yn gyfres gynrychioliadol lawn o samplau, gan egluro cymhlethdod amrywiaeth gwibfeini. Efallai gellir cyflawni'r amcan hwn drwy roddion yn bennaf, ond yn gyffredinol bydd hyn yn dibynnu ar brynu trwy ffynonellau cymeradwy.
- Datblygu casgliad y Grŵp Petroleg Arfau (bwyeill) a'r wybodaeth gysylltiedig trwy raglen ymchwil sylweddol.

Archifau
- Argaeledd SAG i gaffael eitemau wrth iddynt ymddangos ar y farchnad.

Bygythiadau

Paleontoleg
- Diffyg lle i ehangu wrth i'r casgliadau dyfu.

Mwynyddiaeth
- Diffyg lle i ehangu wrth i'r casgliadau dyfu.

Meysydd sydd angen eu datblygu dros y pum mlynedd nesaf (h.y. rhaglenni gweithredol)

- Mwynyddiaeth Cymru (i gynnal statws)
- Y prif gasgliad mwynau (nad ydynt o Gymru)
- Casgliad creigiau cyfeirio Cymru
- Casgliad petroleg ymchwil
- Cerrig adeiladu
- Gwibfeini
- Y casgliad glo
- Anifeiliaid di-asgwrn-cefn o ansawdd arddangos
- Rhai anifeiliaid di-asgwrn-cefn Carbonifferaidd

Meysydd sydd angen datblygu goddefol (h.y. rhoddion ond dim rhaglenni caffael gweithredol)
- Petroleg y DU a byd-eang, slag

Casgliadau caeedig y credwn na ddylid eu gwaredu
- Mwynau ymbelydrol

Casgliadau y gellid eu gwaredu
- Casgliadau dyblyg, nad ydynt yn ymwneud â Chymru, y casgliad cerrig nad arddangosir (awgrymu eu trosglwyddo i'r casgliad addysgu)

Effaith y Strategaeth Casglu
O fewn y prif gasgliadau, mae dylanwad y Weledigaeth i'w weld yn y ffyrdd canlynol:
- Datblygu rhannau newydd o'r prif gasgliadau, yn gysylltiedig ag arbenigedd perthnasol mewn meysydd casglu lle y ceir galw cyhoeddus am wybodaeth (y prif anifeiliaid di-asgwrn-cefn, cerrig adeiladu, archeopetroleg, gemfeini a gwibfeini a arddangosir).
- Er bod casglu ym maes y gwyddorau naturiol yn ymwneud yn bennaf ag adlewyrchu a chofnodi'r byd naturiol, a chadw'r cofnod hwn am byth, mae agwedd gyfoes ar gasglu yn codi. Enghraifft dda o hyn yw'r casgliad glo, lle mae agweddau cymdeithasol (ymwybyddiaeth gymdeithasol o lo yn pylu a lleihad yn yr adnoddau ymchwil yn sgîl cau pyllau glo a gweithfeydd glo brig) yn ysgogi rhaglen gasglu.
- Sicrhau bod y casgliadau yn berthnasol i gefnogi rhaglenni cyhoeddus
- Sicrhau bod y casgliadau yn gallu ategu cynlluniau gweithredu Planet Earth ac Earthscape drwy
    - Gwella ein henw da gwyddonol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
    - Sicrhau y'n cydnabyddir fel y ganolfan sefydledig ar gyfer cadw a lledaenu data cywir ar fflora, ffawna a daeareg ffosiliau Cymru

Polisi Dysgu a Mynediad

- Drwy ddatblygu rhannau newydd o'r casgliadau, yn gysylltiedig ag arbenigedd mewn meysydd casglu pan fo galw cyhoeddus am wybodaeth, bydd yr Adran Ddaeareg yn sicrhau bod mwy o wybodaeth ynglŷn â daeareg ar gael ac yn hygyrch i fwy o bobl. Gallwn ddefnyddio'r casgliadau daearegol yn rhagweithiol i greu galw gan y cyhoedd a gwella diddordeb, efallai mewn partneriaeth gyda sefydliadau 'dysgu' eraill - e.e. Adrannau Dysgu Gydol Oes, Awdurdodau Addysg Cymru, ESEF (Cymru), a'u defnyddio i ysgogi diddordeb/gwybodaeth gyhoeddus o ddigwyddiadau o ddiddordeb - darganfod ffosiliau arwyddocaol, echdoriadau folcanig ac ati.
- Byddwn hefyd yn casglu yn briodol wrth i ni ddatblygu themâu neu storïau (e.e. newid yn yr hinsawdd trwy hanes) y byddwn yn dymuno'u harchwilio mewn arddangosfeydd neu raglenni deongliadol, wrth i ni ddatblygu ein cysyniadau ar gyfer creu Amgueddfa Hanes Naturiol Genedlaethol i Gymru.

Agweddau cyfoes ar gasglu

- Mae datblygiadau newydd o ran gwella'r casgliad cerrig adeiladu, y casgliad glo a'r casgliad petroleg sy'n ymwneud ag archeoleg oll yn adlewyrchu galwadau cyfoes ar y casgliad petroleg.

Bylchau yn y casgliadau

- Rhestrir y rhain o dan wendidau; rhestrir mesurau priodol i fynd i'r afael â hyn o dan gyfleoedd.

Casgliadau i'w gwaredu

- Ni nodwyd fawr o ddeunydd i'w waredu, sy'n adlewyrchu'n rhannol yr ymagwedd manwl gywir a ddefnyddiwyd wrth gaffael sbesimenau yn y gorffennol.

2.5 HANES CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

Pam rydym yn casglu?

- Er mwyn cadw ac astudio adeiladau, arteffactau a deunydd archif sy'n egluro treftadaeth gymdeithasol, ddiwylliannol ac amgylcheddol holl bobl Cymru, o'r canoloesoedd hyd heddiw, ac i ddehongli'r dreftadaeth honno i'r gynulleidfa ehangaf posibl.
- Er mwyn troi Sain Ffagan - Amgueddfa Werin Cymru yn amgueddfa hanes Cymru lle gall ymwelwyr archwilio hanes Cymru mewn un safle.
- Cefnogi arddangosfeydd hanes cymdeithasol a diwylliannol newidiol yn holl amgueddfeydd hanes Amgueddfa Cymru.
- Creu casgliad cyfeirio sy'n perthyn i dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, yn faterol ac yn anfaterol, at ddiben ymchwil academaidd, ac i fod yn ffynhonnell arbenigedd awdurdodol yn y meysydd hyn.

Sut rydym yn casglu?

Mae casgliadau'r adran yn tyfu mewn nifer o ffyrdd:
- Rhoddion
- Cymynroddion
- Prynu
- Gwaith maes (gan staff adrannol a sefydliadau allanol)

Mae casgliadau'r adran yn amrywio o adeiladau hanesyddol a ail-adeiladwyd i dystiolaeth lafar a recordiwyd yn y maes. Dylai casglu gwybodaeth fod mor berthnasol â'r casgliad o arteffactau, er mwyn i ni gynnig dealltwriaeth gliriach o'r cymunedau a gynrychiolir gan yr arteffactau. Gan fod cynrychioldeb yn fater allweddol, mae detholedd yn hanfodol, a rhaid iddo fod yn seiliedig ar ymchwil trylwyr a strategaeth ddeongliadol a gynlluniwyd yn dda.

Yn hanesyddol, bu'r broses o gasglu adeiladau hanesyddol yn adweithiol yn bennaf, yn cynnwys elfen fawr o siawns. Mae'n dibynnu ar adeiladau'n cael eu cynnig gan aelodau o'r cyhoedd neu awdurdodau lleol, sy'n lliniaru yn erbyn rhag-gynllunio. Gyda chyn lleied o le i ddatblygu'r casgliadau hyn ymhellach, dylem fod yn targedu adeiladau penodol pan fyddant ar gael (e.e. ar werth neu drwy arwerthiant) mewn modd mwy gweithredol. Mae hon yn ymagwedd llawer mwy rhagweithiol a fyddai'n ei gwneud yn haws i gynllunio ymlaen llaw yn strategol.

Yn yr un modd, gallwn fod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu cysylltiadau ymchwil gydag adrannau prifysgol. Hyd yma rydym wedi bod yn storfa oddefol ar gyfer deunydd archifol a gynhyrchir gan brosiectau ymchwil prifysgolion sydd o fewn ein cylch gwaith. Mae angen i ni weithio gyda phrifysgolion, i ddylanwadu ar bynciau ymchwil a gwneud ceisiadau ar y cyd i ffynonellau arian na fyddent ar gael i ni fel arall.

Cyd-destun Strategol

Nod datganedig Amgueddfa Werin Cymru oedd darlunio bywyd a gwaith bob dydd pobl Cymru o'r Oesoedd Canol hyd heddiw. Defnyddiwyd casgliadau i ddarlunio amrywiaeth gofodol ac esblygiad amserol, yn wahanol i'r rhan fwyaf o amgueddfeydd awyr agored ym Mhrydain a thu hwnt. Gosodwyd y pwyslais ar bethau nodweddiadol, yn hytrach na phethau unigryw, a phersbectif hanes oddi isod.

Mae gweledigaeth Amgueddfa Cymru ar gyfer Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan, "lle gall ymwelwyr archwilio hanes Cymru ar un safle" yn symud y nod mewn nifer o ffyrdd ac fe gaiff hyn nifer o ôl-effeithiau ar ddatblygiad y casgliadau:

- Mae angen i ni archwilio p'un a oes gan Amgueddfa Cymru, fel sefydliad, y casgliadau i gyflawni'r hyn a ddisgwylir o amgueddfa o'r fath, yn enwedig o ran hanes gwleidyddol a rhediad stori gronolegol.
- Ceir bylchau amlwg o ran cynrychioli ystod yr hunaniaethau a'r cymunedau sy'n bodoli yng Nghymru, ac sydd wedi bodoli yng Nghymru.

Cryfderau'r casgliadau

- Adeiladau hanesyddol: Dau adeilad yn eu lle - y mae un ohonynt yn adeilad rhestredig Gradd I - a dros 60 o adeiladau a ddatgymalwyd ac a ailgodwyd ar y safle. Casgliad da o ffermdai a bythynnod, adeiladau diwydiannol/crefft bach gwledig ac ysguboriau. Hefyd enghreifftiau cynrychioliadol da o fathau adeiladau rhanbarthol (domestig) a thechnegau adeiladu.
- Masnach: deunyddiau busnes a masnachu yn bennaf. Hefyd casgliadau yn ymwneud â meddyginiaeth, cyfraith a threfn ac eitemau eglwysig.
- Celfi brodorol: y casgliad gorau yn y DU, y mae cyfran fawr ohono yn cael ei harddangos yn yr adeiladau a ail-adeiladwyd, yn ogystal â chasgliad nodedig o eitemau horolegol.
- Casgliad o wisgoedd a thecstilau o'r 16^{eg} ganrif hyd heddiw, yn cynnwys dillad ffasiynol a dillad bob dydd, dillad achlysurol a chyfwisgoedd o bob math.
- Bywyd Cartrefol: casgliad cynhwysfawr o offer coginio, llaethyddiaeth, teclynnau cartref, llestri bwrdd, addurniadau a ffabrigau dodrefnu.
- Amaethyddiaeth: offer, cerbydau a pheiriannau amaethyddol yn dyddio o ddiwedd y 18^{fed} hwyr hyd at ganol yr 1950au, naill ai o wneuthuriad Cymreig neu â chysylltiadau cryf â Chymru.
- Casgliadau crefftau yn cynrychioli bywyd gwaith Cymru wledig a lled-ddiwydiannol, e.e. gwaith coed, gwaith lledr, crefftau gwaith metel, basgedwaith. Hefyd crefftau tecstilau megis cwiltio, brodwaith, sideru, teilwra a chynhyrchion y diwydiant gwlân yng Nghymru.
- Casgliadau bywyd diwylliannol, yn perthyn i gerddoriaeth, llên gwerin ac arferion gwerin, sefydliadau diwylliannol, addysgol a chymdeithasol, diwylliant poblogaidd, chwaraeon a theganau a gemau plant.
- Casgliadau archifol sy'n cynnwys yr archif ddiffiniol o draddodiadau llafar a'r tafodieithoedd, ffilmiau gwaith maes, llawysgrifau sy'n ymwneud ag ethnoleg Gymreig, ac archif ffotograffig o dros 150,000 o ddelweddau. Mae'r casgliad llên gwerin yn arbennig yn drysorfa wybodaeth y gellid ei defnyddio i bersonoli a bywiogi arddangosfeydd awyr agored.
- Llyfrgell arbenigol o dros 40,000 o gyfrolau a 200 o gyfnodolion sy'n ymwneud ag astudiaethau ethnolegol a hanes cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Gwendidau'r Casgliad

- Mae casglu ar ôl y 1950au a chasglu cyfoes yn ddiffygiol ar draws holl rychwant y casgliadau.
- Mae'r tai allan sy'n perthyn i fywyd gweithiol nifer o'r ffermdai hanesyddol a ailgodwyd yn Sain Ffagan ar goll.
- Ni chynrychiolir pob rhanbarth yn y casgliad o adeiladau hanesyddol, a phrin yw'r adeiladau cartref trefol yn y casgliad.
- Hefyd ychydig iawn o ddeunydd trefol sydd yn y casgliadau clyweledol. Er y bu cynnydd yn y recordiadau Saesneg ers yr 1980au, mae tuedd tuag at ddeunydd Cymraeg o hyd.
- Ychydig iawn o gynrychiolaeth sydd o ieithoedd a diwylliannau cymunedol amrywiol Cymru, ac mae amlddiwylliannaeth yn faes nas archwiliwyd yn helaeth yn ein gwaith casglu ac ymchwil.
- Nid yw agweddau gwahanol ar ddiwylliant poblogaidd wedi'u cynrychioli cystal â diwylliant traddodiadol.
- Ni cheir cynrychiolaeth ddigonol o ffermio da byw yng Nghymru yn y casgliadau amaethyddol, ac mae angen ehangu'r casgliadau hyn hefyd i gynnwys gwyddor amaethyddiaeth, prosesu bwyd ac amrywiaeth cynyddol amaethyddiaeth fodern yn y cyfnod cymhorthdal ôl-gynhyrchu.
- Nid oes gennym y casgliadau i ddehongli hanes gwleidyddol Cymru na'r 'stori genedlaethol'.
- Prin yw'r deunydd sydd gennym i gynrychioli mewnfudo i Gymru ac allfudo o Gymru.
- Er gwaethaf y dybiaeth fod y safle yn ymwneud â phobl Cymru, yn hytrach nag yn amgueddfa o dechnegau adeiladu, yn y gorffennol nid ydym wedi dilyn ymagwedd gyfannol gyson tuag at waith casglu, a fyddai'n cysylltu adeiladau ac arteffactau â storïau'r bobl a fu'n byw ynddynt a'u defnyddio. Hefyd mae recordiadau hanes llafar yn y gorffennol wedi pwysleisio prosesau a geirfa yn hytrach na hanes cymdeithasol/hanes bywydau.

Casgliadau goddefol neu gaeedig

Tan i ni gynnal trafodaethau pellach ynglŷn â chylch gwaith Amgueddfa Werin Cymru, mae'n anodd rhestru'n fanwl y meysydd casglu y gellid eu cynnwys o dan y pennawd hwn. Yn gyffredinol, mae'r casgliadau cyn 1950 o'r rhan fwyaf o'r dosbarthiadau presennol ond angen eu datblygu'n oddefol. Yn yr oes sydd ohoni, mae'n annhebygol y bydd mathau penodol o adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnig i'r amgueddfa, ac efallai y dylid eu cofnodi fel rhan o'r casgliadau archifol yn hytrach na'u casglu fel sbesimenau ffisegol. O ran technoleg amaethyddol cyn-1950 rydym ond angen dogfennau, ffotograffau a hysbysebion yn ymwneud â'r casgliad presennol er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer dehongli. Mae clociau tad-cu a chelfi cyn yr 20^{fed} ganrif (ar wahan i rai categorïau eithriadol) yn gasgliadau caeedig i bob pwrpas, neu sydd ond angen eu datblygu'n oddefol. Mae eitemau golchi dillad cyn yr 1930au, coginio tân agored, llaethyddiaeth a theclynau trydan a nwy cyn yr 1950au yn gasgliadau caeedig.

Nid ydym bellach yn cynnal ymchwil ar y tafodieithoedd, ond cesglir recordiadau o arolygon tafodiaith ac ymchwil iethyddiaeth-gymdeithasol a gyflawnir gan adrannau prifysgol neu'r cyfryngau yn oddefol er mwyn darparu dilyniant o adnoddau archifol i ymchwilwyr yn y meysydd hynny.

Casgliadau y gellir eu gwaredu

- Casgliad o dapiau o ddarllediadau radio a gyn-gofrestrwyd, os gellid eu trosglwyddo naill ai i Lyfrgell Genedlaethol Cymru neu archifau'r BBC.
- Eitemau dyblyg neu eitemau sydd mewn cyflwr gwael, y gellid eu hystyried ar gyfer casgliadau triniaeth neu i'w defnyddio mewn arddangosfeydd agored.

Strategaeth ar gyfer datblygu casgliadau

- Datblygu'r brîff ar gyfer Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.
- Mabwysiadu ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at gasglu adeiladau hanesyddol, er mwyn sicrhau y defnyddir y lle sy'n weddill ar y safle i'w botensial eithaf er mwyn gwireddu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.
- Ymgynghori a chydweithio ag adrannau eraill Amgueddfa Cymru a sefydliadau eraill (yn enwedig amgueddfeydd ac archifau eraill, y Llyfrgell Genedlaethol, ac adrannau prifysgol) er mwyn rhannu adnoddau ar gyfer ymchwil ac arddangos.
- Ailstrwythuro ac ailgyfeirio'r adnoddau sydd ar gael i ddatblygu meysydd casglu newydd, yn enwedig hanes cenedlaethol a hanes gwleidyddol (eisoes yn mynd rhagddo).
- Curaduron ym mhob maes casglu i fynd i'r afael â bylchau casglu ôl-1950.
- Datblygu casglu cyfoes ym mhob maes drwy:
  - Penodi Curadur Diwylliant Cyfoes a fydd yn gweithio gyda'r arbenigwyr pwnc presennol i ddarparu strategaeth gasglu gyfoes yn seiliedig ar brosiectau.
  - Manteisio ar y cyfle, trwy Oriel 1 a phrosiectau eraill, i gynnwys cymunedau yn y gwaith o gynhyrchu arddangosfeydd a fydd yn gwella ein casgliadau. I ddechrau'r broses hon, byddwn yn defnyddio Gŵyl y Diwylliannau Mwslemaidd i ddatblygu'r elfennau a guradwyd gan y gymuned ar gyfer yr arddangosfa newydd sydd i'w hagor yn Oriel 1 yn 2007.
  - Manteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg newydd a'r we fyd-eang i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a chasglu deunydd clyweledol (e.e. tystiolaeth lafar, ffotograffau) yn uniongyrchol.
  - Defnyddio digwyddiadau cenedlaethol i gynnwys rhanddeiliaid ac amlygu meysydd casglu newydd.

Cyfyngiadau ar Gasglu

Ceir ffactorau a fyddai, oni ddatrysir hwy, a fydd yn cyfyngu ar ein gallu i ddatblygu ein casgliadau:

- Diffyg lle storio.
- Diffyg arbenigedd curadol ym meysydd casglu newydd / themâu deongliadol.
- Lle cyfyngedig i ehangu o fewn safle Sain Ffagan ac anawsterau posibl o ran cael caniatâd cynllunio.
- Darfodusrwydd deunyddiau a ddefnyddir wrth gynhyrchu arteffactau modern a

chyfoes.

2.6 DIWYDIANT

Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon yn disodli'r 'Polisi Casglu ar gyfer yr Adran Ddiwydiant: Polisi ar Gaffael a Gwaredu'r Casgliadau' a luniwyd yn 2000 (ac a adolygwyd yn 2003) ac yn adlewyrchu'r gwaith o gyflawni Strategaeth Ddiwydiannol yr Amgueddfa a'r gwaith arfaethedig o ddarparu Prosiect Storio a'r 'Weledigaeth'.

Pam rydym yn casglu?

Sefydlwyd yr Adran Ddiwydiant yn 1959 i gyflawni brîff y Siartr Brenhinol (1907, adolygwyd 1991) a oedd yn galw ar yr Amgueddfa i 'ddarlunio diwydiannau arbennig Cymru yn llawn'. Disodlwyd y brîff hwn bellach gan y Siartr drafft (2005) sy'n galw am gynrychioliadau cynhwysfawr o ddiwydiant Cymru'. Ei nod yw hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth o ddiwydiannau arbennig Cymru trwy gasglu a chadw arteffactau ac ymchwilio iddynt, eu dehongli a'u harddangos. Er mwyn cyflawni hyn mae'r Adran yn casglu gwrthrychau dau ddimensiwn a thri dimensiwn, ffotograffau, llyfrau, gweithiau celf, ffilm a recordiadau sain.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi nodau penodol a chylch gwaith yr Adran Ddiwydiant fel y mae'n perthyn i Bolisi corfforaethol y Cyngor ar Gaffael a Gwaredu Casgliadau. Mae llawer o weithgarwch casglu presennol yr Adran yn perthyn i raglenni arddangosfeydd amgueddfeydd diwydiannol Amgueddfa Cymru a'r casgliadau ymchwil a arddangosir yn safleoedd yr amgueddfeydd diwydiannol:

<u>Big Pit – Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon</u>
- Amgueddfa a enillodd wobr Gulbenkian 2005 yn cynnwys taith danddaearol a gweithfeydd yr arwyneb ym mhwll glo'r Big Pit
- Y prif leoliad arddangos a storio ar gyfer casgliadau Glo Cenedlaethol

<u>Y Ganolfan Gasgliadau, Nantgarw</u>
- Y brif storfa ar gyfer casgliadau tri-dimensiwn, dogfennau, ffotograffau, gweithiau celf, ffilm a recordiadau sain yr Adran Ddiwydiant
- Casgliad wrth gefn o beiriannau tecstilau Amgueddfa Wlân Cymru
- Cyfran fach o'r casgliadau wrth gefn o Big Pit – Amgueddfa Lofaol Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru

<u>Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis</u>
- Mae'r Amgueddfa yn seiliedig ar weithdai peirianegol hen Chwarel Lechi Dinorwig, adeilad rhestredig a adeiladwyd yn 1870.
- Y lleoliad arddangos a storio ar gyfer y casgliadau Llechi Cenedlaethol

<u>Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe</u>
- Prif leoliad arddangos casgliadau'r Adran Ddiwydiant
- Llyfrgell ac Ystafell Ymchwil Ffotograffig yr Adran Ddiwydiant

Amgueddfa Wlân Cymru, Drefach, Felindre

- Mae'r Amgueddfa yn seiliedig ar adeiladau melin wlân o'r 19eg a'r 20fed ganrif a adwaenir fel Melinau'r Cambrian
- Y prif leoliad arddangos a storio ar gyfer y casgliadau Gwlân Cenedlaethol

Sut rydym yn casglu?

Mae casgliadau'r adran yn amrywio o beiriannau sefydlog maint llawn, locomotifau, llongau a cherbydau i fodelau graddfa, offer personol, cyfarpar, eiddo ac effemera yn ogystal â dogfennau, llyfrau a ffotograffau dethol.

Mae'r adran yn caffael casgliadau trwy:

- Roddion
- Cymynroddion
- Prynu
- Casglu yn y maes

Cyd-destun Strategol

Agoriad Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, ym mis Hydref 2005 oedd yr elfen olaf yn y gwaith o gyflawni Strategaeth Ddiwydiannol Amgueddfa Cymru, datblygiadau yn Big Pit – Amgueddfa Lofaol Cymru, y Ganolfan Gasgliadau, Amgueddfa Lechi Cymru ac Amgueddfa Wlân Cymru.

Mae cyflawni'r Strategaeth Ddiwydiannol wedi annog amlorchwylio traws safle a chydweithio rhyngadrannol ym maes curadu, dogfennu a chadwraeth. Bu ymdrechion i ddatblygu ein Cylch Curaduron Diwydiannol mewnol i helpu cyfarwyddo a chefnogi'r Strategaeth Ddiwydiannol yn llwyddiannus, a bydd y grŵp yn parhau i weithredu yn y cyd-destun hwn i gyflawni prosiectau arddangos yn y dyfodol, ac yn arbennig y rhaglen i adnewyddu'r arddangosfeydd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe dros y tair blynedd nesaf.

Cryfderau'r Casgliadau

Glo

- Pwll glo rhestredig o fewn Safle Treftadaeth y Byd, Blaenafon.
- Casgliad cynhwysfawr o bwysigrwydd rhyngwladol o oleuadau pwll glo, offerynnau llaw, nengynheiliaid, dramiau, offer achub a gwrthrychau undebau llafur.
- Ystod gynhwysfawr o fodelau yn darlunio technegau ac offer cloddio.
- Ystod eang o ddogfennau sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o agweddau ar weithredu a gweinyddu pyllau glo, a deunydd undebau llafur.
- Casgliad mawr a chynhwysfawr o lyfrau, cyfnodolion a Phapurau Seneddol yn ymwneud â'r diwydiant glo; Cyfres nodedig o gyhoeddiadau Arolygiaeth y Cloddfeydd sydd bron yn gyflawn.
- Casgliad mawr o bwysigrwydd cenedlaethol o ffotograffau o'r diwydiant glo.

Diwydiant Trwm

- Casgliad o bwysigrwydd cenedlaethol o offer llaw, samplau proses a chynnyrch y diwydiant metelifferaidd.
- Casgliad o bwysigrwydd cenedlaethol o frics, teiliau a brics gwrthsafol o Gymru.
- Modelau o offer haearn a dur.
- Casgliad o bwysigrwydd cenedlaethol o ddogfennau, yn arbennig llyfrynnau cwmnïau'r diwydiant metelifferaidd, papurau newyddion cwmnïau, a thystysgrifau cyfranddaliadau.
- Casgliad mawr o lyfrau, cyfnodolion a Phapurau Seneddol; Cyfres nodedig o gyhoeddiadau Arolygiaeth y Cloddfeydd a Chwareli sydd bron yn gyflawn.
- Casgliad mawr o bwysigrwydd cenedlaethol o ffotograffau o ddiwydiant trwm yng Nghymru.

Cyfleustodau Cyhoeddus a Pheirianneg Sifil

- Casgliad mawr o'r prif symudwyr, yn enwedig peiriannau olew a nwy.
- Ystod eang o ddogfennau peirianneg sifil.
- Ystod eang o lyfrau a chyfnodolion, yn enwedig cyfnodolion cynnar y diwydiant nwy a thrydan, a gweithiau technegol ar y prif symudwyr.
- Ystod eang o ffotograffau peirianneg sifil, yn arbennig delweddau cofnodi archeoleg ddiwydiannol.

Diwydiant Diweddar a Chyfoes

- Ystod gynhwysfawr o gynhyrchion y diwydiant cerbydau modur a wnaed yng Nghymru.
- Ystod eang o gynhyrchion o ddiwydiant ysgafn Cymru, yn enwedig o'r diwydiant teganau.
- Ystod sydd bron yn gyflawn o gyfrifiaduron a wnaed yng Nghymru.
- Casgliad o lyfrynnau cwmnïau diwydiant modern Cymru.
- Casgliad eang o lyfrau a llyfrynnau, yn enwedig cyfnodolion a chylchlythyron diwydiannau modern Cymru.
- Casgliad o ffotograffau o ddiwydiant modern Cymru.

Llechi

- Adeiladau gweithdy chwarel llechi rhestredig yn Llanberis yn cynnwys offer peirianegol gwreiddiol ar y safle, olwynion dŵr ac olwynion Pelton gweithredol, a chasgliad mawr o batrymau ffowndri.
- Tŷ gwreiddiol peiriannydd, a thai chwarelwyr a ailadeiladwyd, oll wedi'u dodrefnu'n gywir.
- Inclein adferedig llawn weithredol.
- Casgliad o bwysigrwydd cenedlaethol o offer llaw, echdynwyr mecanaidd, wagenni, locomotifau a chynhyrchion o ddechrau'r ugeinfed ganrif.
- Casgliad pwysig o luniau a brasluniau o chwarelwyr wrth eu gwaith gan M.E.Thompson.
- Ystod eang o lyfrau, cyfnodolion a Phapurau Seneddol yn ymwneud â'r diwydiant llechi; ymdriniaeth nodedig â thrafnidiaeth a chyfres o gyhoeddiadau Arolygiaeth y Cloddfeydd a Chwareli sydd bron yn gyflawn.

- Ystod eang o ffotograffau o'r diwydiant llechi.

Trafnidiaeth

- Casgliad o gerbydau rheilffordd o Gymru o bwysigrwydd cenedlaethol; cedwir enghreifftiau o gerbydau eraill yn ogystal.
- Replica gweithredol o locomotif rheilffordd cyntaf y byd (1804).
- Casgliad mawr o bwysigrwydd rhyngwladol o gledrau tramiau a chydrannau cledrau rheilffordd cynnar.
- Casgliad da o gychod bach o fannau o amgylch arfordir Cymru.
- Casgliad eang o offer llaw ac effemera personol yn ymwneud â thrafnidiaeth ar y tir a'r môr.
- Casgliad o longau o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Casgliad o bortreadau o longau o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Ystod eang o ddogfennau, yn enwedig yn ymwneud â'r rheilffyrdd a thrafnidiaeth forwrol.
- Casgliad mawr o lyfrau a chyfnodolion trafnidiaeth, yn enwedig cyfres lawn o Gofrestr Longau Lloyds o ganol y 1830au hyd heddiw.
- Casgliad mawr o bwysigrwydd rhyngwladol o ffotograffau trafnidiaeth.

Gwlân

- Adeiladau rhestredig melin wlân ym Melinau'r Cambrian, Drefach, Felindre, yn cynnwys y peiriannau gwreiddiol.
- Casgliad o beiriannau o felinau gwlân ledled Cymru o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Casgliad o decstilau, samplau a chwiltiau gwlanen a wnaed yng Nghymru o'r ddeunawfed ganrif hyd heddiw.
- Archifau yn ymwneud â Melinau'r Cambrian.

Adnoddau Ymchwil

- Yn ogystal â chryfderau pwnc-benodol y casgliadau archif, llyfrgell a ffotograffau a amlinellwyd uchod, mae ein casgliadau yn cynnwys ymdriniaeth eang a phwysig o ddiwydiannu a threfoli Cymru, hanes cymdeithasol, gweithgarwch gwleidyddol ac undebau llafur, a newid tirwedd.

Gwendidau'r Casgliadau

Ceir tri phrif wendid:

- Ymdriniaeth anghyflawn â'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae hyn yn adlewyrchu dyddiad diweddar sefydlu'r Adran. Cydnabyddwn y bydd cyfleoedd i lenwi bylchau yn y cyfnod amser hwn yn gyfyngedig iawn.
- Tuedd de Cymru yn y casgliadau (ar wahân i lechi). Mae hyn yn adlewyrchu lleoliad yr Adran a mwy o ddwysedd diwydiannu yn ne Cymru i'w gymharu â gogledd Cymru. Manteisir ar gyfleoedd i unioni'r duedd hon pryd bynnag y mae cyfleoedd yn codi.
- Tan yn ddiweddar roedd gwaith casglu yn tueddu tuag at y diwydiannau traddodiadol, ac roedd hyn yn golygu nad oedd cynrychiolaeth ddigonol o'r

meysydd economaidd a fu'n bwysig ers yr Ail Ryfel Byd. Drwy benodi curadur diwydiant diweddar a chyfoes, rydym yn rhoi blaenoriaeth i unioni'r gwendid hwn.

Gwendid strwythurol sy'n gynhenid yn natur aml-safle yr adran yw y gall curaduron fod wedi'u hynysu o'u cydweithwyr ac o'u casgliadau, a chan fod dogfennaeth a staff cadwraeth wedi'u lleoli yn y Ganolfan Casgliadau yn bennaf, gall mynediad i'r casgliadau i gadw a chofnodi'r casgliadau fod yn gyfyngedig. Mae sefydlu Cylch Curaduron Diwydiannol yn gwneud rhywfaint i unioni'r cam hwn.

Cyfleoedd

- Adeiladu ar y cydweithio o ran casglu ac ymchwil rhyngadrannol a rhwng safleoedd a berir gan y Cylch Curaduron Diwydiannol gan felly wella dimensiynau cymdeithasol a diwylliannol y casgliadau.
- Rhannu adnoddau mewnol yn well ar gyfer ymchwil ac arddangos
- Parhau i ddatblygu'r arferion gweithio da a'r cydweithredu gyda phartneriaethau awdurdodau lleol, yn enwedig gydag Abertawe, Tor-faen, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin
- Parhau i ddatblygu'r gydberthynas weithio dda rhyngom a'r archifdai lleol.
- Cymryd rhan mewn partneriaethau priodol a'u meithrin e.e. Llwybr Ewropeaidd Treftadaeth Ddiwydiannol, Herian, Fforwm Padarn
- Parhau â'r cysylltiadau ymchwil a grëwyd gyda Phrifysgol Abertawe wrth ddatblygu cwrs Meistr mewn Astudiaethau Amgueddfa i'w ddysg ar y cyd gan yr Amgueddfa a'r brifysgol; a chyda Phrifysgol Bangor wrth ddarparu'r cyrsiau Rheoli Treftadaeth Bagloriaeth a Meistr presennol.
- Parhau i ddatblygu'r casgliadau diwydiant diweddar a chyfoes
- Gweithredu'r Strategaeth Storio trwy wella storio casgliadau yn y Ganolfan Casgliadau, a darparu gwell mynediad corfforol a deallusol i'r casgliadau hyn, yn arbennig drwy ailadeiladu'r peiriannau sefydlog a'r gwrthrychau mwy o faint yn y storfa.
- Bydd y cysyniad adfywio sy'n sail i'r arddangosfeydd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe, yn cynyddu cyfleoedd casglu, yn enwedig trwy arddangosfeydd o bynciau nas cynrychiolwyd yn ddigonol hyd yma.
- Bydd creu Oriel Torri Tir Newydd pwrpasol yn Abertawe yn ein galluogi i gasglu enghreifftiau o gynhyrchion a phrosesau arloesol wrth iddynt gael eu datblygu, ac felly dogfennu rôl ddatblygol Cymru fel canolfan arloesed.

Bygythiadau

Byddwn yn ceisio:

- Gwarchod rhag difaterwch posibl tuag at bynciau diwydiannol gan fod amlygiad ffisegol ein Strategaeth Ddiwydiannol wedi'i gwblhau bellach.
- Yr angen am adnoddau digonol, yn enwedig o ran cadwraeth a dogfennaeth, o brosiectau arddangos y dyfodol

Casgliadau Goddefol / Caeedig

- Cyfleustodau Cyhoeddus a Pheirianneg Sifil: er gwaethaf y ffaith bod gennym gasgliadau ffotograffig a llyfrgell da, nid oes gennym aelod o staff i gasglu yn weithredol yn y maes hwn.
- Cofnodion cwmnïau: yn unol â'r cytundeb ffurfiol hir sefydledig gydag Archifdai Sirol Cymru, nid yw'r adran yn casglu cofnodion cwmnïau, ond bydd yn cyfeirio darpar roddwyr i'r archifdy priodol.
- Morwrol: yn unol â pholisi'r Pwyllgor Llongau Hanesyddol Cenedlaethol ni fyddwn yn casglu unrhyw gychod morwrol mawr.

Casgliadau y gellid eu gwaredu

- Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad o wrthrychau mawr, gan ymgynghori â'r holl safleoedd diwydiannol i greu rhestr o gasgliadau dyblyg posibl y gellid eu gwaredu.
- Copïau a dderbynnir o ddeunydd archifol (yn enwedig mapiau a chynlluniau) y mae'r fersiynau gwreiddiol yn cael eu cadw yn yr archifdai sirol.

Nodau casglu cyfredol

Byddwn yn casglu:
- gwrthrychau a wnaed neu a ddefnyddiwyd yng Nghymru, yn ogystal â gwrthrychau a wnaed neu a ddefnyddiwyd gan bobl y tu allan i Gymru, a pha bynnag wrthrychau cymharol perthnasol.
- deunydd sy'n dyddio yn bennaf o'r cyfnod o 1750 hyd heddiw, gan osod pwyslais arbennig ar ddeunydd diweddar a chyfoes.
- deunydd a fydd yn gwella'r casgliadau presennol
- gwrthrychau yr ystyrir eu bod o arwyddocâd hanesyddol drwy eu cysylltiad â phobl, digwyddiadau a sefydliadau nodedig, yn enwedig o ran datblygiad diwydiant
- gwrthrychau at ddibenion addysgol er mwyn gwella ac ymestyn dealltwriaeth y cyhoedd o ddiwydiant
- trwy gyfryngau electronig a chlyweledol a dulliau eraill priodol, p'un ai gan yr Amgueddfa neu eraill, cofnodi amgylcheddau, prosesau a pheiriannau gwaith, yn enwedig y rheini sy'n adlewyrchu'r newid yn yr economi Gymreig o gynhyrchu, i'r sector gwasanaeth a'r economi wybodaeth
- cydweithredu ag Adrannau ac amgueddfeydd eraill sydd â chasgliadau cyflenwol er mwyn darparu ymdriniaeth gynhwysfawr â'r pwnc ac osgoi dyblygu diangen.

Rhaid i ddarpar gaffaeliadau hefyd fodloni'r gofynion moesol ac ymarferol sydd ynghlwm, sy'n cydymffurfio â chanllawiau CAFFAEL Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar foeseg ac ymarferoldeb caffael (Mehefin 1996).

Egwyddorion Caffael

- Yn unol ag egwyddorion y Weledigaeth, rhaid i ychwanegiadau i'r casgliadau fod yn seiliedig ar ansawdd, prinder, cyflwr a pherthnasedd i raglenni ymchwil gweithredol wrth gefnogi'r meysydd casglu penodol. Ni fyddwn yn caniatáu caffaeliadau diwahaniaeth na chroniadau ar hap;
- Rhaid i gasgliadau fod o faint hydrin ac yn gynaliadwy. Bydd caffael yn gyfyngedig i'r sbesimenau hynny y gellir eu hastudio, cadw, storio, neu eu harddangos yn gywir, neu eu defnyddio at ddibenion addysgol yn unol â safonau gofal a gymeradwywyd yn rhyngwladol.
- Pwyslais ar gasglu sbesimenau sy'n ategu casgliadau presennol. Fel arfer dylai dyblygu fod at ddibenion ymchwil gwyddonol, dibenion addysgol neu raglenni cyfnewid yn unig;

2.7 Y LLYFRGELL

Cyflwyniad

Mae'r Llyfrgell yn casglu llyfrau a chyfnodolion i ategu gwaith staff yr Amgueddfa, yn enwedig curaduron a'r sawl sy'n gweithio ym maes addysg, ond hefyd yn caffael eitemau sydd i bob pwrpas yn 'wrthrychau amgueddfa', llyfrau pwysig yn hanes Cymru a deunydd cysylltiedig yn yr ystyr ehangaf. Cyfanswm y stoc bresennol yw tua 200,000 o eitemau, yn cynnwys Sain Ffagan.

Cryfderau

Molysgiaid, archeoleg Rufeinig, fflora, Pensaernïaeth a Hanes Cymdeithasol/Diwydiannol yw'r cryfderau penodol. Neilltuir cyllidebau i'r adrannau curadurol i'w caniatáu i flaenoriaethu eu prynu, oherwydd fel gydag unrhyw adran academaidd mewn amgueddfa, prifysgol ac ati, y staff hynny sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau o'r fath. Yn sgîl y Weledigaeth, mae'n debyg y bydd penderfyniadau prynu o'r fath yn deillio o weithgarwch sy'n ymwneud â'r Weledigaeth.

Cyfleoedd

Mae mynediad electronig i deitlau cyfnodolion yn faes sy'n tyfu. Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o'r rhain a ddefnyddir gan yr Amgueddfa yn cynnwys mynediad am ddim gyda'r argraffiad print, er y mae rhai y gellir ond cael mynediad iddynt yn electronig. Yn ddiweddar, mae rhai teitlau yn rhoi'r gorau i gyhoeddi argraffiadau print, gyda mynediad electronig yn unig, yn aml gyda chost sylweddol uwch na'r copi caled gwreiddiol. Mae hwn yn faes gweithredu sy'n cael ei fonitro'n agos gan y Llyfrgell, ac yn cael ei drafod gyda chydweithwyr curadurol.

Casgliadau Goddefol/Caeedig

Mae'r Llyfrgell yn ymwybodol o feysydd lle na fydd fawr o ddatblygu, er enghraifft adareg. Fodd bynnag, bydd yr Amgueddfa yn parhau i gadw meysydd o'r fath. Fodd bynnag, ceir casgliadau o lyfrau sydd wedi dyddio, yn enwedig deunydd 'cyfeirio' [almanaciau ac ati] lle gellid gwaredu deunydd. Os yw'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn yr adolygiad o'r Llyfrgell yn 2006, y weithdrefn fyddai cyflwyno manylion i'r DDG, ac unwaith y rhoddwyd caniatâd, i geisio dod o hyd i 'gartref' i ddeunydd o'r fath, yn hytrach nag ailgylchu.

Chwefror 2006